Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol: Ymgynghoriadau 2022 a 2023

## Ymateb y Llywodraeth

CP 1292

# Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol: Ymgynghoriadau 2022 a 2023

## Ymateb y Llywodraeth

Cyflwynwyd i Senedd y DU gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Ebrill 2025

CP 1292

**© Hawlfraint y Goron 2025**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle’r ydym wedi nodi bod hawlfraint gwybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn CICS-REVIEW@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-5557-6

E03322821 04/25

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi’u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a manylion cyswllt | 6 |
| Rhagair | 7 |
| Crynodeb Gweithredol | 9 |
| Cefndir | 13 |
| Trosolwg o ymatebion | 16 |
| Cyflwyniad | 17 |
| Ymatebion i gwestiynau 2022 ar y rheol euogfarnau beb eu disbyddu | 18 |
| Ymatebion i gwestiynau 2023 ar gwmpas y Cynllun | 24 |
| Ymatebion i gwestiynau 2023 ar derfynau amser | 30 |
| Asesiad Effaith | 37 |
| Casgliadau a chamau nesaf | 38 |
| Egwyddorion ymgynghori | 40 |
| Atodiad A – Datganiad Cydraddoldeb | 41 |
| Atodiad B – Prawf o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | 52 |
| Atodiad C – Rhestr y ymatebwyr i ymgynghoriad 2022 | 53 |
| Atodiad D – Rhestr y ymatebwyr i ymgynghoriad 2023 | 56 |

# Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghori ar gyfer y dogfennau ymgynghori: ‘Ymgynghoriad Atodol o’r Adolygiad Digolledu am Anafiadau Troseddol 2022’ (CP688), ac ‘Ymgynghoriad Ychwanegol o’r Adolygiad Digolledu am Anafiadau Troseddol 2023’ (CP865).

Bydd yn ymdrin â’r canlynol:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o’r ymatebion i’r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â’r **tîm Polisi Digolledu Dioddefwyr a Gwneud Iawn** yn y cyfeiriad isod:

Victims Compensation and Redress Policy Team
Post point 7.25
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

**E-bost:** CICS-Review@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/

Gellir gwneud cais am gopïau o’r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan CICS-Review@justice.gov.uk.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech chi gysylltu â’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

# Rhagair

Mae Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (y Cynllun) yn ffordd o gydnabod y niwed y mae dioddefwyr sydd wedi'u hanafu gan droseddau treisgar wedi'i ddioddef. Y Cynllun yw'r dewis olaf, ar gyfer dioddefwyr cymwys nad ydynt yn gallu cael iawndal drwy ddulliau eraill o wneud iawn sydd ar gael.

Yn 2022 a 2023, cynhaliodd y Llywodraeth flaenorol ddau ymgynghoriad a oedd yn ffocysu ar faterion a godwyd fel rhan o argymhellion a wnaed gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (yr Ymchwiliad) yn ei hadroddiadau interim (2018) a therfynol (2022). Roedd yr ymgynghoriad yn 2022 yn gofyn am safbwyntiau ar 'reol euogfarnau heb eu disbyddu' y Cynllun, ac roedd ymgynghoriad 2023 yn gofyn am safbwyntiau ar gwmpas a therfynau amser y Cynllun.

Nid oedd y Llywodraeth flaenorol wedi ymateb i'r ymgynghoriadau, nac i ymgynghoriad ehangach ar y Cynllun a gynhaliwyd yn 2020, erbyn adeg etholiad 2024.

Mae'r ddogfen ymateb hon yn ystyried ac yn ymateb i'r materion a ystyriwyd yn ymgynghoriadau 2022 a 2023. Mae hefyd yn nodi, ar ôl ystyried yn ofalus, fy mod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen ag argymhellion yr Ymchwiliad i'r Cynllun.

Nid ar chwarae bach y deuthum i'r penderfyniad hwn. Rwy'n gwybod bod pryderon am y Cynllun, ac rwy'n deall y galwadau am newid yn llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Rwy'n cydnabod y pryderon hynny ac yn cydnabod pwysigrwydd craffu parhaus ar y Cynllun gan Gomisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr, Pwyllgorau Seneddol a rhanddeiliaid eraill.

Roedd ymatebwyr yn defnyddio profiadau personol trallodus, neu eu profiad o gefnogi dioddefwyr troseddau treisgar. Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb. Nid yw fy nghasgliadau mewn unrhyw ffordd yn lleihau gwerth eich safbwyntiau nac yn diystyru'r effaith enfawr y mae eich profiadau wedi'i chael ar eich bywydau.

Yn hytrach, mae fy nghasgliadau'n seiliedig ar yr hyn sy'n iawn i'r Cynllun yn ei gyfanrwydd, gan ystyried yr **holl** ddioddefwyr troseddau y mae'n eu cefnogi. Un o egwyddorion craidd y Cynllun yw ei gyffredinolrwydd. Mae'n sicrhau bod pob dioddefwr yn gallu cael mynediad cyfartal at y Cynllun, ni waeth beth fo natur y troseddau treisgar y cawsant eu hanafu ganddynt. Ystyriaf fod yr egwyddor sylfaenol hon o degwch yn hanfodol i rôl y Cynllun. Byddai ehangu cwmpas y Cynllun a newid ei reolau ynghylch terfynau amser ac euogfarnau sydd heb eu disbyddu yn tanseilio'r egwyddor hon, gan mai dim ond i ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol y byddai'r newidiadau hyn yn berthnasol. Gallai hynny, yn fy marn i, fod yn niweidiol i ddioddefwyr haeddiannol eraill troseddau.

Rwyf wedi penderfynu peidio â chyhoeddi ymateb o sylwedd i ymgynghoriad 2020 gan fod y dirwedd cymorth i ddioddefwyr wedi newid yn sylweddol ers 2020. Yr wyf yn dirwyn yr ymgynghoriad hwnnw i ben drwy ysgrifennu at y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder yn ei hysbysu o'm penderfyniad.

Fel y nodwyd uchod, rwy'n cydnabod ac wedi clywed safbwyntiau'r ymatebwyr i'r ymgynghoriadau a'r rhanddeiliaid ehangach rwy'n gweithio gyda nhw ynghylch cefnogi dioddefwyr. Y neges glir i mi yw bod arnom angen newid, a byddaf yn ystyried y ffordd orau i'r Llywodraeth ddarparu'r cymorth y mae ar ddioddefwyr ei angen ac y maent yn ei haeddu.

**Alex Davies-Jones AS**

**Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddioddefwyr a Thrais yn erbyn Menywod a Merched**

# Crynodeb Gweithredol

1. I unrhyw un sydd wedi dioddef trosedd dreisgar, mae cymorth emosiynol ac ymarferol yn allweddol i'w helpu i wella cymaint ag y bo modd o'r anafiadau corfforol a meddyliol y maent wedi'u dioddef. Yn ogystal â'r cymorth hwn, gall iawndal roi cydnabyddiaeth o'r niwed y mae dioddefwr wedi'i ddioddef a'i helpu i wella. I ddioddefwyr nad ydynt yn gallu cael iawndal am eu hanafiadau drwy ddulliau eraill (e.e. drwy iawndal a orchmynnir gan y llys neu hawliad sifil), gall y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (y Cynllun) fod yn ddewis olaf ym Mhrydain Fawr.[1]

2. Mae'r Cynllun yn statudol, ac fe'i gwneir dan Ddeddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995. Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA) sy'n gweinyddu'r Cynllun yn annibynnol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae CICA yn asesu pob cais yn erbyn y meini prawf cymhwysedd, y gofynion a'r tariffau anafiadau a nodir yn y Cynllun. Mae hyn yn sicrhau ei fod yn gwneud penderfyniadau mewn ffordd gyson, deg a thryloyw i bob dioddefwr.

3. Yn 2020, cynhaliodd y Llywodraeth flaenorol ymgynghoriad a oedd yn ystyried gwahanol ffyrdd o wella mynediad at iawndal, ar yr un pryd â chadw'r Cynllun yn gynaliadwy yn ariannol. Roedd yn edrych ar gefndir y Cynllun, ei gwmpas a'i bwrpas, ei reolau cymhwysedd, a strwythur ei ddyfarniadau a'i dariffau. Roedd yn nodi cynigion ar gyfer newid ac yn gofyn am safbwyntiau ar y rhain. Mae hefyd yn nodi meysydd lle na chynigiwyd unrhyw newid, er enghraifft, i gwmpas, terfynau amser a rhai rheolau cymhwysedd y Cynllun, ac ar y meysydd hyn, nid oedd yr ymgynghoriad yn gofyn unrhyw gwestiynau penodol. Ni chyhoeddwyd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

4. Yn 2021, datganodd yr Uchel Lys fod Strategaeth Dioddefwyr 2018 y Llywodraeth wedi creu disgwyliad dilys y byddai'r Llywodraeth yn gofyn am safbwyntiau ynghylch diwygio 'rheol euogfarnau heb eu disbyddu' y Cynllun.[2] Mae'r rheol hon yn golygu y gall ceisiadau gael eu gwrthod, neu y bydd dyfarniadau iawndal yn cael eu lleihau, os oes gan ymgeisydd euogfarn droseddol sydd heb ei disbyddu. Dywedodd y Llys, gan nad oedd ymgynghoriad 2020 wedi gofyn yn benodol am safbwyntiau ar y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu, y dylid cynnal ymgynghoriad ar hyn, yn enwedig i ystyried a ddylai'r Cynllun wrthod cais yn awtomatig lle mae euogfarnau troseddol ymgeisydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'u cam-drin rhywiol fel plentyn. Codwyd

[1] Mae cynllun ar wahân yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

[2] https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2021/2248.html

y cwestiwn hwn am y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu hefyd gan argymhelliad interim yr Ymchwiliad.[3]

5. Yn dilyn hynny, cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar y rheol euogfarnau heb eu disbyddu yn ystod haf 2022, lle'r oedd yn gofyn am safbwyntiau ar opsiynau posibl ar gyfer diwygio, yn ogystal ag ar opsiwn dim newid. [4]

6. Cyhoeddodd yr Ymchwiliad ei adroddiad terfynol ym mis Hydref 2022. Ynddo, fe ailddatganodd ei argymhelliad interim ar y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu. Yn ogystal, cynhigiodd ddau newid arall i'r Cynllun: yn gyntaf, dylid ymestyn y cwmpas i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein; ac yn ail, cynyddu'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau am gam-drin plant yn rhywiol i saith mlynedd, o'r ddwy bresennol. [5]

7. Yn dilyn ymateb blaenorol y Llywodraeth i adroddiad terfynol yr Ymchwiliad (ym mis Mai 2023)[6], ymgynghorodd ar derfynau amser a chwmpas y Cynllun yn ystod haf 2023. Roedd yn gofyn am safbwyntiau ar ddiwygiadau posibl, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu hargymell gan yr Ymchwiliad, ochr yn ochr â'r opsiwn o beidio â diwygio. Roedd ymgynghoriadau 2022 a 2023 wedi cyflawni'r rhwymedigaeth weithdrefnol i ymgynghori ar newidiadau i'r Cynllun sy'n ymwneud ag argymhellion yr Ymchwiliad, a oedd wedi deillio o Strategaeth Dioddefwyr 2018.

8. Mae rhagor o fanylion am ymgynghoriadau 2022 a 2023 ar gael yn adran 'Cefndir' y ddogfen hon. Mae'r ddogfen hon wedyn yn cyflwyno ein hymatebion a'n casgliadau.

## Sut mae'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad hon wedi'i gosod

9. Daethpwyd i'n penderfyniadau ar y materion yr ymgynghorwyd arnynt ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ddau ymgynghoriad a'u hystyried yn ofalus. I gefnogi'r gwaith hwn, fe wnaethom ddadansoddi data llwyth achosion CICA ar gyfer 2016 i 2019, a oedd yn sail i ymgynghoriad 2022, a set wedi'i diweddaru o ddata llwyth achosion ar gyfer 2020 i 2022, a oedd yn sail i ymgynghoriad 2023.

3 https://www.iicsa.org.uk/publications/inquiry/interim

4 https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-supplementary-consultation/

5 https://www.iicsa.org.uk/reports-recommendations/publications/inquiry/final-report/ii-inquirys-conclusions-and-recommendations-change/part-i-making-amends/i5-financial-redress.html

6 https://www.gov.uk/government/publications/response-to-the-final-report-of-the-independent-inquiry-into-child-sexual-abuse

10. Rydym ni'n cyflwyno'r pynciau yn y drefn ganlynol:
    - Y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu
    - Cwmpas y Cynllun
    - Terfynau amser

11. Ar ôl delio â'r materion, rydym wedyn yn cyflwyno ein casgliadau a'r camau nesaf.

## Casgliadau

12. Mae'r ddogfen yn egluro sut, ar ôl ystyried yn ofalus yr opsiynau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriadau, ar yr adeg hon na fydd y Llywodraeth hon yn diwygio cwmpas, terfynau amser na rheol euogfarnau heb eu disbyddu'r Cynllun.

13. Un o egwyddorion craidd y Cynllun yw ei gyffredinolrwydd. Mae hyn yn golygu ei fod yn trin dioddefwyr sydd wedi'u hanafu gan droseddau treisgar yn deg, ar sail yr anaf y maent wedi'i ddioddef, yn hytrach na natur benodol y drosedd dreisgar y cawsant eu hanafu ganddi. Byddai ehangu cwmpas y Cynllun a newid ei reolau ynghylch terfynau amser ac euogfarnau sydd heb eu disbyddu yn tanseilio'r egwyddor hon, gan mai dim ond i ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol y byddai'r newidiadau hyn yn berthnasol. Gall hyn fod yn niweidiol i ddioddefwyr eraill o droseddau treisgar.

14. Fel y nodir yn yr Asesiadau Effaith, a ddaeth gyda'r ymgynghoriadau, byddai defnyddio argymhellion yr Ymchwiliad gyda phob dioddefwr yn arwain at gostau ychwanegol sylweddol. Mae'n debyg y byddai'r rhain yn anfforddiadwy heb leihau'r ddarpariaeth bresennol o rannau eraill o'r Cynllun.

15. Mae rhagor o fanylion am ein rhesymeg dros beidio â gwneud unrhyw newidiadau ar bob un o'r meysydd yr ymgynghorwyd arnynt yn y bennod 'Casgliadau a'r camau nesaf' yn y ddogfen hon, ac yn yr adrannau 'Ymateb y Llywodraeth' yn y penodau sy'n rhoi manylion yr ymatebion i gwestiynau am gwmpas, terfynau amser ac euogfarnau sydd heb eu disbyddu.

16. Byddwn yn ystyried y Cynllun yng nghyd-destun ein cynnig ehangach i ddioddefwyr troseddau. Bydd hyn yn ystyried gwelliannau diweddar yn y ffordd y mae'r Cynllun yn gweithredu, darpariaeth y Llywodraeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer dioddefwyr troseddau a'r cyd-destun ariannol presennol. Er enghraifft, rydym ni nawr yn gweithredu'r diwygiadau yn Neddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, i gael y waelodlin yn iawn ar gyfer dioddefwyr, ac rydym ni'n bwriadu ymgynghori ar y Cod Dioddefwyr diwygiedig maes o law.

17. Yn erbyn y cefndir hwn o newid, mae'r galw am y Cynllun wedi bod yn cynyddu'n gyson, gyda mwy o geisiadau am iawndal bob blwyddyn. Mae gan hyn oblygiadau i gynaliadwyedd y Cynllun.

## Asesiad Effaith

18. Gwnaethom gyhoeddi Asesiad Effaith gyda phob ymgynghoriad.[7] Gan nad ydym yn bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau, nid yw'r dogfennau hyn wedi newid.

## Datganiad Cydraddoldeb

19. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol Ddatganiad Cydraddoldeb fel rhan o bob ymgynghoriad, ac mae fersiwn wedi'i diweddaru yn **Atodiad A**. Mae hyn yn dangos, ar ôl dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad a data arall, ein barn ni yw na fydd y polisi'n achosi anfantais benodol i unrhyw grŵp.

[7] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-supplementary-consultation/supporting_documents/cicssupplementaryconsultationimpactassessment.pdf and https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-additional-consultation-2023/supporting_documents/cicsconsultationimpactassessmentunsigned.pdf

# Cefndir

20. Mae'r ddogfen hon, sy'n cynnwys ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad, yn crynhoi'r ymatebion i'n dau ymgynghoriad adolygu.

## Ymgynghoriad 2022

21. Cafodd y papur ymgynghori 'Ymgynghoriad Atodol o'r Adolygiad Digolledu am Anafiadau Troseddol 2022'[8] ei gyhoeddi ar 9 Mehefin 2022. Roedd yn gofyn am sylwadau ar newidiadau posibl i'r hyn a elwir yn rheol 'euogfarnau sydd heb eu disbyddu' y Cynllun.

22. Mae'r rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu wedi bod ar waith ers i'r cynllun digolledu statudol cyntaf ddod i rym ym 1996. Nod y rheol yw cyfyngu ar gymhwysedd rhai pobl i gael iawndal, er mwyn adlewyrchu maint y niwed a wneir i eraill, a chost ymddygiad troseddol i gymdeithas. Cafodd newidiadau eu gwneud i'r rheol yn 2012, sydd bellach yn cynnwys rhan waharddol (sy'n atal unigolion sydd wedi cael dedfrydau penodol o garchar neu ddedfrydau cymunedol rhag elwa o iawndal a ariennir gan y wladwriaeth), a rhan ddiamod (sy'n darparu i'r rheini sydd wedi cael dedfrydau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhan waharddol, i gael gostyngiad yn eu dyfarniadau).

23. Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaeth y Goruchaf Lys (*A and B v Criminal Injuries Compensation Authority and another* [2021] UKSC 27) ddyfarnu bod y rheol euogfarnau heb eu disbyddu yng Nghynllun 2012 yn deg ac yn gymesur.[9]

24. Ym mis Awst 2021, dyfarnodd yr Uchel Lys fod y Llywodraeth ar y pryd, drwy ei Strategaeth Dioddefwyr 2018, wedi creu disgwyliad teg y byddai'n ymgynghori ar unrhyw newidiadau i'r Cynllun sy'n deillio o argymhellion yr Ymchwiliad, gan gynnwys unrhyw newid i'r rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu. Arweiniodd hyn at y Llywodraeth flaenorol yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ynghylch a ddylid diwygio'r rheol ai peidio (nid oedd y Llywodraeth flaenorol wedi gofyn am safbwyntiau yn ei chylch yn ymgynghoriad 2020). Roedd hyn yn cynnwys ystyried argymhelliad a wnaed gan yr Ymchwiliad yn ei adroddiad interim yn 2018,[10] y dylid diwygio'r rheol fel nad yw dyfarniadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig mewn amgylchiadau lle mae

8 https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-supplementary-consultation/

9 https://supremecourt.uk/cases/uksc-2019-0055

10 https://www.iicsa.org.uk/reports-recommendations/publications/inquiry/interim/recommendations.html

euogfarnau troseddol ymgeisydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'u cam-drin rhywiol fel plentyn.

25. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi'r pedwar opsiwn canlynol:
    - Dim newid i ran waharddol y rheol.
    - Cyflwyno esemptiadau i ran waharddol y rheol ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol fel plant (argymhelliad yr Ymchwiliad).
    - Diwygio telerau rhan waharddol y rheol.
    - Dileu'r rheol waharddol.

26. Yn ogystal, gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau am a ddylid cynnwys arweiniad ar arfer disgresiwn yn y Cynllun. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 5 Awst 2022.

## Ymgynghoriad 2023

27. Cafodd y papur ymgynghori 'Ymgynghoriad Ychwanegol o'r Adolygiad Digolledu am Anafiadau Troseddol 2023'[11] ei gyhoeddi ar 18 Gorffennaf 2023. Roedd yn gwahodd sylwadau ar newidiadau posibl i gwmpas a therfynau amser y Cynllun.

28. Cafodd yr ymgynghoriad hwn ei lansio ar ôl cyhoeddi adroddiad terfynol yr Ymchwiliad ym mis Hydref 2022.[12] Roedd adroddiad terfynol yr Ymchwiliad yn argymell newidiadau i gwmpas a therfynau amser y Cynllun, ac yn ailddatgan ei argymhelliad blaenorol yn 2018 i newid y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu (a oedd wedi cael ei ystyried yn yr ymgynghoriad atodol yn 2022). Roedd ymateb y Llywodraeth i adroddiad yr Ymchwiliad ym mis Mai 2023 yn ymrwymo i ymgynghoriad ychwanegol ar gwmpas a therfynau amser y Cynllun. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn golygu bod y rhwymedigaeth i ymgynghori ar newidiadau i'r Cynllun yn dilyn argymhellion yr Ymchwiliad a ddeilliodd o Strategaeth Dioddefwyr 2018 wedi cael ei chyflawni.

29. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi'r tri opsiwn canlynol mewn perthynas â'r cwmpas:
    - Dim newid.
    - Cynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol yn y diffiniad o 'drosedd dreisgar', gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein (argymhelliad yr Ymchwiliad).
    - Diwygio'r meini prawf cymhwysedd i ychwanegu categori ychwanegol ar gyfer troseddau digyswllt.

[11] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-additional-consultation-2023

[12] https://www.gov.uk/government/publications/iicsa-report-of-the-independent-inquiry-into-child-sexual-abuse

30. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi'r pum opsiwn canlynol mewn perthynas â therfynau amser:
    - Dim newid.
    - Diwygio'r terfyn amser i saith mlynedd ar gyfer ymgeiswyr cam-drin plant yn rhywiol a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad, gyda'r Cynllun yn cynnal y disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol (rhan o argymhelliad yr Ymchwiliad).
    - Diwygio'r terfyn amser i saith mlynedd ar gyfer pob cais, gyda'r Cynllun yn cynnal y disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol.
    - Diwygio'r terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad.
    - Diwygio'r terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd.

31. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn ar sut i godi ymwybyddiaeth o derfynau amser y Cynllun. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Medi 2023.

# Trosolwg ar yr ymatebion

32. Rydym wedi dadansoddi'r ymatebion i'r ddau ymgynghoriad o ran safbwyntiau ar yr opsiynau a ystyriwyd, yn ogystal â thystiolaeth o'r effaith. Nid atebodd pob un o'r ymatebwyr bob cwestiwn ac roedd rhai ymatebwyr wedi dewis cyflwyno eu hymateb ar ffurf llythyr cyffredinol. Yn yr achosion hyn, lle mae'n ymddangos bod sylwadau mewn ymateb i gwestiwn penodol, mae'r cyfraniadau hyn wedi cael eu trin at ddibenion dadansoddi fel atebion i'r cwestiynau hynny.

33. Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriadau, gan gynnwys unigolion a rannodd eu profiad personol o'r Cynllun gyda ni. Er bod rhai ymatebwyr wedi mynegi barn neu wedi gwneud awgrymiadau nad oedd yn ateb y cwestiynau neu oedd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad, rydym yn eu croesawu ac wedi'u hystyried yn drylwyr.

# Cyflwyniad

34. Mae gweddill y ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i bob un o'r ddau ymgynghoriad ac yn nodi sut mae'r broses ymgynghori wedi llywio ein penderfyniadau ar y materion yr ymgynghorwyd arnynt.

35. Mae'r papur ymateb wedi'i anelu at bobl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan adlewyrchu cwmpas daearyddol y Cynllun. Bydd o ddiddordeb arbennig i ddioddefwyr a goroeswyr; grwpiau, gwasanaethau ac elusennau dioddefwyr; academyddion; cynrychiolwyr o'r sector cyfreithiol a gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr nac yn anghynhwysol, a bydd ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb yn y pynciau a drafodir yn y papur hwn.

36. Un ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniadau am y Cynllun oedd ei gadw mor fforddiadwy ac mor gynaliadwy yn ariannol â phosibl, fel y gall barhau i wasanaethu rhai o'r dioddefwyr mwyaf agored i niwed ar un o'r adegau anoddaf yn eu bywydau. O ganlyniad, cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol Asesiad Effaith gyda phob ymgynghoriad. Gan nad ydym yn bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau, nid yw'r dogfennau hyn wedi newid.

37. Mae Datganiad Cydraddoldeb yn **Atodiad A**.

38. Mae Prawf o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gael yn **Atodiad B**.

39. Ceir rhestr o'r ymatebwyr i bob un o'r ddau ymgynghoriad yn **Atodiadau C a D**.

# Ymatebion i gwestiynau 2022 ar y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu

## Crynodeb o'r ymatebion

40. Cafwyd 114 o ymatebion i 'Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol: ymgynghoriad atodol 2022' y Llywodraeth flaenorol.[13] Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd safbwyntiau ar gadw rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu'r Cynllun fel y mae, ac ar ddiwygiadau posibl. Roedd yn ymrwymo i wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid diwygio'r rheol, ac os felly, sut.

41. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid newid, gan alw naill ai am ddiddymu'r rheol neu ei newid. Y dewis a gefnogwyd gan y gyfran fwyaf o ymatebwyr i ymgynghoriad 2022 oedd dileu rhan waharddol y rheol.

42. Ceir trosolwg o'r ymatebwyr yn **Atodiad C** ac mae manylion am safbwyntiau'r ymatebwyr i'w gweld isod.

## Cwestiynau ymgynghoriad 2022 ar y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu

### **C1:** Beth yw eich barn am gadw rhan waharddol y rheol heb ei newid?

43. Roedd 105 (92%) o'r ymatebion yn anghytuno â chadw rhan waharddol y rheol heb ei newid. Roedd un ymatebydd yn cydnabod natur ddadleuol y rheol, ac y byddai cyflwyno disgresiwn yn peryglu eglurder y Cynllun. Ni chafwyd ateb i'r cwestiwn gan 8 ymatebydd (7%).

[13] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-supplementary-consultation/

44. Roedd sylwadau gan y rheini a oedd yn anghytuno y dylai rhan waharddol y rheol aros yr un fath yn cynnwys:
    - nid yw'n caniatáu ar gyfer adsefydlu
    - mae'n anghymesur ac nid yw'n adlewyrchu'r ffaith bod troseddu yn aml yn gysylltiedig ag erledigaeth flaenorol
    - mae'r rheol yn wahaniaethol, gan effeithio'n arbennig ar ddioddefwyr cam-drin rhywiol, masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern; unigolion du, brown a hiliaethol

45. Roedd 16 o ymatebwyr o blaid dileu rhan waharddol y rheol, 4 o blaid dileu'r rheol gyfan a 2 o blaid cyflwyno esemptiadau ar gyfer grwpiau penodol.

**C2:** Beth yw eich barn am argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol y dylid adolygu'r rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu fel nad yw dyfarndaliadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig mewn amgylchiadau lle mae euogfarn droseddol ymgeisydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'i brofiad o gael ei gam-drin yn rhywiol pan oedd yn blentyn, ac y dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau?

46. Roedd 39 o ymatebion (34%) yn cytuno ag argymhelliad yr Ymchwiliad, gyda 10 yn nodi bod dioddefwyr camdriniaeth yn dioddef yn anghymesur o ganlyniadau negyddol a all arwain at euogfarnau troseddol. Cafwyd ymatebion cymysg gan 45 o ymatebwyr (39%), gyda 36 yn cytuno ag argymhelliad yr Ymchwiliad ond yn datgan y byddai'n well ganddynt ddileu rhan waharddol y rheol. Roedd 11 o ymatebion (10%) yn anghytuno ag argymhelliad yr Ymchwiliad, gan alw naill ai am ddileu'r rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu neu ddychwelyd i'r safle yn ôl disgresiwn.

**C3:** Ydych chi'n ystyried mai dim ond i rai ymgeiswyr y dylid ystyried esemptiadau? Os felly, ar ba sail y dylai'r esemptiadau fod a phryd dylai disgresiwn fod ar gael?

47. Roedd 65 o ymatebion (57%) yn anghytuno ag esemptiadau ar gyfer rhai ymgeiswyr yn unig. Dywedodd 28 y dylai disgresiwn fod ar gael ym mhob achos, a dywedodd 7 y dylid dileu'r rheol. Dywedodd 13 o ymatebwyr y gallai esemptiadau arwain at annhegwch i ddioddefwyr nad ydynt yn diwallu'r union fanylebau, a thynnodd 13 sylw at y posibilrwydd o gael hierarchaeth o ddioddefwyr.

48. Roedd 25 o ymatebion (22%) yn cytuno y dylid ystyried esemptiadau penodol, ac roedd yr awgrymiadau ar gyfer esemptiadau yn cynnwys:
    - y rheini y mae eu heuogfarn yn gysylltiedig â throsedd o drais y maent wedi'i ddioddef, e.e. y rheini sydd wedi dioddef anafiadau sylweddol i'r ymennydd, dioddefwyr cam-drin rhywiol, y rheini sy'n destun rheolaeth drwy orfodaeth, a dioddefwyr caethwasiaeth fodern a masnachu pobl
    - y rheini a gafwyd yn euog o droseddau llai difrifol
    - dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl

49. Roedd 7 ymateb (22%) yn cynnig barn wahanol y dylai rhai ymgeiswyr gael eu heithrio'n awtomatig rhag hawlio / derbyn iawndal, fel y rheini sydd ag euogfarnau am droseddau rhywiol neu y mae eu herledigaeth yn uniongyrchol gysylltiedig â'u hymddygiad troseddol.

**C4:** Beth yw eich barn am unrhyw esemptiadau ac arweiniad ar arfer disgresiwn yn cael eu nodi yn y Cynllun?

50. Roedd 5 ymateb (4%) yn cefnogi esemptiadau ac arweiniad ar arfer disgresiwn yn cael eu nodi yn y Cynllun, gan nodi y byddai'n cynnig tryloywder a defnydd cyson o'r meini prawf. Fodd bynnag, nid oedd 15 o ymatebion (13%) yn cefnogi'r dull hwn, gan ddweud y byddai'n haws diweddaru'r Cynllun pe baent yn cael eu cadw fel dogfennau ar wahân. Roedd 30 o ymatebwyr wedi ailddatgan eu hateb i C3, ac roedd 21 heb ateb y cwestiwn ond wedi cynnig safbwyntiau ar yr angen i'r canllawiau fod yn glir, mewn Saesneg clir ac ar gael i'r cyhoedd, ac y dylid eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid a'u cefnogi drwy hyfforddi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn CICA.

**C5:** Beth yw eich barn am ddiwygio rhan waharddol y rheol i leihau nifer yr hawliadau a fyddai'n cael eu gwrthod yn awtomatig ar sail euogfarn sydd heb ei disbyddu benodol?

51. Roedd 14 o ymatebion (12%) yn cefnogi diwygio'r rheol, gan groesawu unrhyw newid a oedd yn lleihau nifer y gwrthodiadau awtomatig neu'n osgoi hierarchaeth o ddioddefwyr. Roedd 41 o ymatebion (36%) yn anghytuno, ac roedd 19 o ymatebion (17%) yn darparu atebion cymysg. O'r rhain, dywedodd neu awgrymodd 41 y dylid dileu rhan waharddol y rheol, gan y byddai ei diwygio'n dal i eithrio'r rheini sydd â dedfrydau o garchar, ac nid yw'n mynd i'r afael â'r ffaith nad yw'r cyfnod y mae euogfarn yn aros wedi'i disbyddu bob amser yn gysylltiedig â difrifoldeb y drosedd.

**C6:** Beth yw eich barn am ganllawiau ar arfer disgresiwn yn cael eu nodi yn y Cynllun?

52. Roedd 9 ymateb (8%) o blaid nodi canllawiau yn y Cynllun fel y byddai'n dryloyw ac yn glir i ymgeiswyr. Roedd 18 o ymatebion (16%) yn anghytuno, gydag 15 yn awgrymu y gellid diwygio'r canllawiau yn haws os nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y Cynllun ei hun. Ni chafwyd ateb i'r cwestiwn gan 35 ymatebydd.

53. Darparodd 51 o ymatebwyr ymatebion nad oeddent yn ateb y cwestiwn, gan gynnwys 14 a oedd ond yn datgan neu'n awgrymu y dylid dileu rhan waharddol y rheol (9) neu'r rheol (5) yn llwyr. Roedd llawer o'r ymatebwyr wedi mynegi barn ar gynnwys a datblygiad y canllawiau yn unig, gan gynnwys y dylent fod yn glir, yn dryloyw ac wedi'u datblygu i osgoi rhagfarn neu wahaniaethu wrth wneud penderfyniadau.

**C7:** Beth yw eich barn am ddileu rhan waharddol y rheol?

54. Roedd 71 o ymatebion (62%) yn cytuno â dileu rhan waharddol y rheol. Dywedodd ymatebwyr y dylid penderfynu ar achosion ar sail teilyngdod (10), bod y rhan waharddol yn awgrymu bod rhai dioddefwyr yn fwy haeddiannol nag eraill (10), ac y dylem ddychwelyd i ddisgresiwn y Cynllun cyn-2012 (4). Dywedodd eraill y gall ymddygiad troseddol ddilyn cam-drin rhywiol, a bod y rheol yn gwahaniaethu yn erbyn dioddefwyr trais rhywiol, masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern.

55. Cafwyd barn gymysg gan 12 o ymatebion (11%). Dywedodd 4 y dylid dileu rhan waharddol y rheol ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol / trais rhywiol. Dywedodd eraill y dylid cadw rhan waharddol y rheol ar gyfer y rheini sydd wedi'u hanafu wrth gyflawni trosedd, ar gyfer y rheini sydd wedi'u cael yn euog o lofruddiaeth, delio cyffuriau neu droseddau rhyw, neu'r rheini na fydd eu heuogfarnau byth yn cael eu disbyddu.

**C8:** Beth yw eich barn am ddiffinio sut dylid arfer disgresiwn yn y Cynllun?

56. Roedd 22 o ymatebion (19%) yn cytuno y dylai'r Cynllun ddiffinio sut y dylid arfer disgresiwn. Dywedodd 9 y byddai canllawiau clir yn ddefnyddiol i sicrhau cysondeb a hyder y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a thryloywder i'r hawlydd. Roedd 32 o ymatebion (28%) yn anghytuno, gydag 13 yn dweud y byddai ei ddiffinio yn y Cynllun yn ei gwneud yn anodd ei ddiwygio.

57. Cafwyd ymateb cymysg gan 22 (19%), gan gynnwys y gallai gormod o gysondeb olygu colli disgresiwn ac y gallai dull rhy anhyblyg arwain at annhegwch. Roedd rhai ymatebwyr wedi awgrymu y dylid cynnwys ffynonellau o arweiniad ar ddisgresiwn neu sut y dylai prosesau weithio.

## Cwestiynau cydraddoldeb 2022 ar y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu

**C9:** Ydych chi’n cytuno ein bod wedi nodi’n gywir amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb o beidio â newid, ac ar gyfer pob un o’r diwygiadau posibl a nodir yn yr ymgynghoriad hwn?

58. Roedd 17 o ymatebion (15%) yn cytuno bod y ddogfen ymgynghori wedi nodi amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb yn gywir, roedd 55 o ymatebion (48%) yn anghytuno, a 42 o ymatebwyr (37%) heb ateb y cwestiwn hwn.

59. Cyflwynwyd y safbwyntiau canlynol:
    - Oedran (18 o ymatebwyr): Nododd ymatebwyr nad yw’r Cynllun yn cydnabod effaith anghymesur y rheol ar blant sydd wedi dioddef trosedd, nad ydynt yn gwneud cais am iawndal am flynyddoedd lawer yn ddiweddarach.
    - Rhyw (5 ymatebydd): Tynnodd 4 sylw at yr effaith anghymesur ar fenywod a merched sydd wedi bod yn destun dedfryd o garchar, gan fod cyfran uchel ohonynt wedi profi cam-drin domestig. Gwnaeth 1 y pwynt bod dynion yn cael eu cynrychioli’n anghymesur ymysg y boblogaeth sy’n ddeiliaid cofnodion troseddol.
    - Hil: Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at orgynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifol yn y system cyfiawnder troseddol fel troseddwyr, sy’n golygu bod y rheol yn cael effaith anghymesur arnynt.
    - Anabledd: Dywedodd un neu ddau o’r ymatebwyr fod y rheol yn effeithio ar y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl, problemau llythrennedd neu anawsterau iaith.

60. Effeithiau a awgrymir y tu allan i nodweddion gwarchodedig: Tynnodd un neu ddau o’r ymatebwyr sylw at effaith anghymesur y rheol ar weithwyr rhyw, y rheini sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol a dioddefwyr caethwasiaeth fodern.

61. Mae ein dadansoddiad llawn o gydraddoldeb ar gyfer y ddau ymgynghoriad i’w weld yn y Datganiad Cydraddoldeb yn **Atodiad A**.

## Ymatebion y Llywodraeth i'r rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu

62. Ar ôl ystyried pwrpas y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu, tystiolaeth ynghylch sut mae'n gweithio, ac ymatebion i'r ymgynghoriad, ein penderfyniad ni yw peidio â'i newid ar hyn o bryd.

63. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd hyn yn siom i randdeiliaid a oedd yn gryf o blaid newid, yn enwedig y rheini y mae'r rheol yn effeithio arnynt yn bersonol. Mae ein rhesymau dros ddod i'n penderfyniad i gynnal y rheol fel a ganlyn.

64. Roedd rhan waharddol y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu yn un o nifer o ddiwygiadau a wnaed i'r Cynllun yn dilyn ymgynghoriad yn 2012, gyda phrif nod o sicrhau bod iawndal ar gael i'r rheini sy'n dioddef yr anafiadau mwyaf difrifol yn dilyn troseddau treisgar, ac i leihau costau'r Cynllun er mwyn sicrhau y byddai'n gynaliadwy. Yn 2021, penderfynodd dyfarniad y Goruchaf Lys yn *A and B* [2021] UKSC 27, ei bod yn briodol i'r Llywodraeth wneud rheolau ynghylch pryd y gallai ymgeiswyr gael eu gwahardd rhag cael iawndal. Cyflwynwyd rhesymeg gref a chlir dros gyflwyno rhan waharddol i'r rheol, ar sail difrifoldeb y drosedd a gyflawnir gan yr ymgeisydd, fel y dangosir gan y ddedfryd a roddir.

65. Byddai diwygio'r rheol mewn ffordd sy'n trin gwahanol grwpiau o ddioddefwyr, er enghraifft plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr troseddau, neu ddioddefwyr gwahanol fathau o droseddau, yn wahanol – fel sy'n cael ei argymell gan yr Ymchwiliad – yn torri egwyddor cyffredinolrwydd y Cynllun. Gallai hyn hefyd arwain at oblygiadau o ran cydraddoldeb – trafodir hyn ymhellach yn y Datganiad Cydraddoldeb yn **Atodiad A**.

66. Nid yw hyn yn lleihau difrifoldeb yr anaf y gallai ymgeisydd fod yn hawlio amdano, ond mae'n adlewyrchu niwed i eraill, costau i gymdeithas a chyflwr y troseddau a gyflawnwyd ganddynt.

67. Mae'r rheol wedi gweithio yn ôl y bwriad ac wedi galluogi CICA i gymhwyso'r rheol i bob ymgeisydd a gwneud penderfyniadau ar hawliadau mewn ffordd gyson ac amserol.

# Ymatebion i gwestiynau 2023 ar gwmpas y Cynllun

## Cyflwyniad

68. Mae'r adran hon yn ystyried cwmpas y Cynllun, sef y mathau o anafiadau ac, mewn rhai achosion, troseddau y mae'r Cynllun yn talu iawndal amdanynt. O dan y Cynllun (paragraff 4 ac Atodiad B[14]), i fod yn gymwys o bosibl i gael iawndal, rhaid i berson fod wedi dioddef anaf corfforol neu feddyliol drwy fod yn ddioddefwr uniongyrchol o drosedd dreisgar sy'n cynnwys cyswllt corfforol neu fygythiad o drais ar unwaith.

69. Roedd ymgynghoriad 2023, 'Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol: ymgynghoriad ychwanegol 2023'[15] yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylid diwygio cwmpas (yn ogystal â therfynau amser) y Cynllun. Cafwyd 49 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a cheir trosolwg o'r ymatebwyr yn **Atodiad D**.

## Crynodeb o ymatebion 2023

70. Roedd ymgynghoriad 2023 yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylai cwmpas y Cynllun newid, er enghraifft i gynnwys cam-drin plant yn rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein, y cyfeirir ato weithiau fel 'meithrin perthynas amhriodol ar-lein', fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (yr Ymchwiliad), a throseddu digyswllt arall. Roedd yn nodi tri opsiwn:
    - Dim newid.
    - Cynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol yn y diffiniad o 'drosedd dreisgar', gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein (argymhelliad yr Ymchwiliad).
    - Diwygio'r meini prawf cymhwysedd i ychwanegu categori ychwanegol ar gyfer troseddau digyswllt.

71. Cyflwynir yr ymatebion i bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad isod. Yn gryno, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a fynegodd farn yn teimlo y dylai cwmpas y Cynllun newid. Er enghraifft, roeddent yn dweud bod y Cynllun yn anghyson â datblygiadau ym maes cyfraith droseddol ac ymddygiad troseddol o ran sut mae cam-drin a chamfanteisio ar blant ac oedolion sy'n ddioddefwyr yn cael ei gyflawni, drwy ddulliau

[14] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/808343/criminal-injuries-compensation-scheme-2012.pdf

[15] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-additional-consultation-2023/

digyswllt a rhai sy’n cael eu hwyluso ar-lein. Teimlent fod ymddygiad o’r fath yn cael ei gydnabod fwyfwy fel ymddygiad troseddol, a bod cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion o droseddu ‘digyswllt’ (roedd ymgynghoriad 2020 wedi nodi hyn).

72. Dywedodd rhai y dylai’r Cynllun adlewyrchu y gall niwed / effeithiau seicolegol rhai troseddau di-drais fod yr un mor niweidiol ag anafiadau corfforol a achosir gan droseddau treisgar. Roeddent yn dadlau y dylai’r Wladwriaeth gydnabod y niwed a achoswyd i ddioddefwyr y troseddau hyn yn yr un modd ag y mae’n ei wneud i ddioddefwyr troseddau treisgar, drwy iawndal.

73. Roedd llai o gefnogaeth i’r dull a argymhellwyd gan yr Ymchwiliad (o ddiwygio’r diffiniad o ‘drosedd dreisgar’ i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin wedi’i hwyluso ar-lein), nag ar gyfer diwygio’r meini prawf cymhwysedd er mwyn cynnwys mwy o droseddau digyswllt yn y cwmpas. Roedd hyn yn awgrymu bod rhanddeiliaid o’r farn y dylid gwneud iawn am rai troseddau, boed y dioddefwr yn oedolyn neu’n blentyn ar yr adeg y digwyddodd. Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch y mathau o ymddygiad troseddol y dylid eu cynnwys yn y cwmpas ar gyfer pob opsiwn newid.

## Cwestiynau ymgynghoriad 2023 ar gwmpas

**C1:** Beth yw eich barn am gwmpas y Cynllun yn aros yr un fath?

74. O’r 49 o ymatebion, roedd 41 (83%) yn anghytuno y dylai cwmpas y Cynllun aros yr un fath. Ni chafwyd ateb i’r cwestiwn gan 4 ymatebydd (8%), ac roedd 4 ymateb (8%) yn aneglur.

75. Roedd y sylwadau’n cynnwys:
- Nid yw’r Cynllun wedi cadw i fyny â’r ffordd mae ymddygiad troseddol a datblygiadau technolegol yn esblygu,
- Mae peidio newid y Cynllun yn cael effaith negyddol ac yn eithrio dioddefwyr troseddau rhywiol ar blant (diweddar a hanesyddol), meithrin perthynas amhriodol ar-lein, manipiwleiddio a rheolaeth drwy orfodaeth, yn ogystal â goroeswyr masnachu pobl / caethwasiaeth fodern a cham-drin domestig (gan gynnwys cam-drin economaidd), a
- Dylai’r Cynllun adlewyrchu y gall niwed / effeithiau seicolegol rhai troseddau di-drais fod yr un mor niweidiol ag anafiadau corfforol a achosir gan droseddau treisgar.

76. Roedd ymatebwyr hefyd yn cefnogi argymhelliad yr Ymchwiliad i newid cwmpas y Cynllun ac yn gwneud awgrymiadau i ehangu’r cwmpas ymhellach i gynnwys

troseddau digyswllt difrifol, fel camfanteisio rhywiol, caethwasanaeth domestig, troseddau rhyw plant, cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein, cam-drin rhywiol seiliedig ar ddelweddau, rheolaeth drwy orfodaeth, meithrin perthynas amhriodol ar-lein a stelcio.

**C2:** Beth yw eich barn am ddiwygio'r diffiniad o drosedd dreisgar i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol?

77. Roedd 28 (57%) o ymatebion yn cefnogi diwygio'r diffiniad o drosedd dreisgar i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol. Roedd 6 (12%) wedi darparu ymatebion cymysg ac roedd 2 (4%) yn anghytuno. Nid oedd 13 (26%) o'r ymatebion wedi ateb y cwestiwn, neu nid oeddent yn glir.

**C3:** Os ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn y diffiniad fel hyn, pa fathau digyswllt o gam-drin plant yn rhywiol y dylid eu cynnwys yng nghwmpas y Cynllun?

78. Roedd 34 (69%) o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn, ac 15 (30%) heb ateb y cwestiwn. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r atebion fwy nag un awgrym, a gwnaed cyfanswm o 27 o awgrymiadau gwahanol. I grynhoi:
    - **Cam-drin** a **stelcio wedi'i hwyluso ar-lein** oedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin, gyda phob un yn cael ei gynnig gan tua hanner yr ymatebwyr.
    - **Cyflwyno plant i ddeunydd neu weithredoedd rhywiol, meithrin perthynas amhriodol ar-lein (amhenodol) a rheolaeth drwy orfodaeth** oedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin nesaf, gydag oddeutu chwarter yr ymatebwyr yn eu cynnig.
    - Roedd pob trosedd ddigyswllt, aflonyddu (gan gynnwys rhywiol), meithrin plant yn amhriodol ar-lein i gyflawni gweithredoedd rhywiol, a masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern yn cael eu cynnig gan tua un o bob chwech o'r ymatebwyr.
    - Gwnaed awgrymiadau eraill hefyd ond gan lai o ymatebwyr (4 neu iau).

**C4:** Beth yw eich barn chi am gynnwys troseddu digyswllt difrifol o fewn cwmpas y Cynllun?

79. Roedd 35 (71%) o ymatebion yn cytuno y dylid cynnwys troseddau digyswllt difrifol yng nghwmpas y Cynllun; roedd 5 (10%) yn rhoi ymateb cymysg; ac roedd 4 (8%) yn anghytuno. Ni wnaeth 5 (10%) o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn.

**C5:** Pa fathau o droseddu digyswllt y dylid eu cynnwys o fewn cwmpas y Cynllun?

80. Roedd 41 (84%) o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn, ac nid oedd 8 (16%) wedi ateb y cwestiwn. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r atebion fwy nag un awgrym, a gwnaed cyfanswm o 31 o awgrymiadau gwahanol. I grynhoi:
    - **Stelcio a rheolaeth drwy orfodaeth** oedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin, gyda phob un yn cael ei gynnig gan tua hanner yr ymatebwyr.
    - **Camfanteisio neu gam-drin, meithrin perthynas amhriodol ar-lein a chaethwasiaeth fodern** oedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin nesaf, gydag oddeutu chwarter yr ymatebwyr yn eu cynnig.
    - **Roedd aflonyddu, camddefnyddio delweddau personol, porn dial a throseddau digyswllt** i gyd yn cael eu cynnig gan tua un rhan o chwech o'r ymatebwyr.
    - Gwnaed awgrymiadau eraill hefyd ond gan lai o ymatebwyr (4 neu iau).

## Cwestiynau cydraddoldeb 2023 sy'n ymwneud â chwmpas a therfynau amser

**C13:** Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb o beidio â newid, ac ar gyfer pob un o'r diwygiadau posibl a nodir yn yr ymgynghoriad hwn?

**C14:** Oes unrhyw ddulliau lliniaru o ran effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi eu hystyried?

81. Ni chawsom lawer o ymatebion i'r cwestiynau hyn, gyda 39 (80%) o'r ymatebwyr ddim yn ateb C13. Nid ymhelaethodd y 7 (14%) o ymatebion a oedd yn cytuno bod yr ymgynghoriad wedi nodi'r effeithiau.

82. Dywedodd un ymatebydd fod cadw troseddau digyswllt y tu allan i gwmpas y Cynllun yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn menywod, sy'n fwy tebygol o ddioddef y math hwnnw o drosedd.

83. Mae ein dadansoddiad llawn o gydraddoldeb ar gyfer y ddau ymgynghoriad i'w weld yn y Datganiad Cydraddoldeb yn **Atodiad A**.

## Ymateb y llywodraeth i'r cwmpas

84. Rydym wedi ystyried yn ofalus pob elfen o newid posibl i gwmpas y Cynllun. Yn ogystal ag ystyried barn ymatebwyr, rydym hefyd wedi ystyried agweddau polisi, gweithredol ac ariannol ehangach. Ein casgliad ar hyn o bryd yw y byddwn yn cynnal cwmpas presennol y Cynllun.

85. Byddai'r ddau opsiwn ar gyfer newid a gyflwynir yn yr ymgynghoriad yn newid pwrpas y Cynllun yn sylfaenol drwy alluogi pobl i fod yn gymwys i gael iawndal am droseddu nad yw'n dreisgar, nad yw'n cynnwys cyffwrdd / cyswllt corfforol, ac nad yw'n cynnwys bygythiad o drais ar unwaith. Yn ein barn ni, mae cwmpas presennol y Cynllun yn ddigon eang i ganiatáu ar gyfer amrywiaeth eang o amgylchiadau, gan gynnwys, mewn rhai achosion, camfanteisio ar-lein, meithrin perthynas amhriodol ar-lein, stelcio, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl lle mae sefyllfaoedd wedi troi'n rhai sy'n ymwneud â thrais neu fygythiad o drais ar unwaith.

86. Ar ben hynny, gallai'r ddau opsiwn ar gyfer newid arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr hawliadau newydd a mwy cymhleth. Gallai hyn arwain at roi mwy o bwysau ar adnoddau CICA o ran sicrhau digon o dystiolaeth i'w alluogi i ddod i benderfyniad ynghylch dyfarnu troseddau di-drais, sy'n debygol o fod yn fwy dwys o ran adnoddau na sicrhau tystiolaeth o anaf o droseddau treisgar. Byddai'r galw hwn am adnoddau yn effeithio ar bob dioddefwr sy'n hawlio iawndal drwy'r Cynllun, sy'n golygu y byddai angen iddynt aros yn hirach na'r disgwyl i'w hawliad gael ei benderfynu.

87. Mae ystyriaethau cydraddoldeb wedi'u nodi yn y Datganiad Cydraddoldeb yn **Atodiad A** ond, yn gryno, ein barn yw nad yw'r polisi o gyfyngu'r Cynllun i droseddau treisgar yn wahaniaethol. Er enghraifft, dangosodd set ddata CICA 2016–2019, pan mai'r prif reswm dros wrthod achos yw 'dim trosedd dreisgar', cafodd 53% o'r achosion hyn eu cyflwyno gan fenywod, a 47% gan ddynion, sy'n wahaniaeth bach. Byddai diwygio cwmpas y Cynllun ar gyfer dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol yn unig (fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad) yn torri egwyddor graidd y Cynllun, sef cyffredinolrwydd. Mae hyn yn sicrhau bod pob dioddefwr sy'n cael ei anafu gan drosedd dreisgar yn gallu cael mynediad cyfartal at y Cynllun, ni waeth beth fo natur y troseddau.

88. Yn fwy cyffredinol, rydym hefyd yn cydnabod y rôl sylweddol y gall cymorth, ar wahân i iawndal, ei chwarae o ran helpu dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau cymorth arbenigol i ddioddefwyr. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig rhaglenni cymorth wedi'u teilwra, gan gynnwys cwnsela, gwasanaethau therapiwtig, eiriolaeth, allgymorth a gweithgareddau grŵp i ddioddefwyr a goroeswyr o bob oed, gan gynnwys plant.

89. Yn ogystal, mae'r Cod Dioddefwyr[16] yn nodi'r hyn y gall dioddefwyr troseddau ei ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol. Nod Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 yw gwella ymwybyddiaeth o'r Cod Dioddefwyr, a chydymffurfio ag ef, drwy wneud yn siŵr bod dioddefwyr yn gwybod am eu hawliau yn y Cod a bod asiantaethau'n eu darparu. Mae Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 hefyd yn ceisio gwella cymorth i ddioddefwyr drwy ddyletswydd ar gomisiynwyr lleol yn Lloegr i gydweithio i gomisiynu gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, cam-drin rhywiol a thrais difrifol. Mae Deddf 2024 hefyd yn gwella pwerau'r Comisiynydd Dioddefwyr, ac rydym yn bwriadu mynd ymhellach a chynyddu pwerau'r Comisiynydd mewn deddfwriaeth yn y dyfodol i gynyddu atebolrwydd lle nad yw anghenion dioddefwyr yn cael eu diwallu.

90. Rydym hefyd yn edrych ar y Cynllun yng nghyd-destun y cymorth rydym yn ei ddarparu i ddioddefwyr, er mwyn dod o hyd i ddatrysiad sy'n rhan o becyn cymorth cynaliadwy.

16 https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime

# Ymatebion i gwestiynau 2023 ar derfynau amser

## Crynodeb o'r ymatebion

91. Fel y nodir uchod, roedd ymgynghoriad 2023 yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylid diwygio cwmpas a therfynau amser y Cynllun.

92. Dywedodd y rhan fwyaf o'r 49 o ymatebwyr y dylai terfynau amser y Cynllun newid neu gael eu dileu. Roedd llai o gonsensws ynghylch beth ddylai'r terfyn amser fod a pham (h.y. tystiolaeth i'w gefnogi) a phwy ddylai'r newidiadau effeithio arnynt (h.y. pob ymgeisydd neu ddim ond categorïau penodol).

93. Y rheswm allweddol cyntaf dros fod eisiau newid oedd y rhwystrau rhag rhoi gwybod am drosedd a gwneud cais am iawndal y mae dioddefwyr rhai troseddau, yn enwedig cam-drin neu ymosodiadau rhywiol, yn eu hwynebu. Mae hyn yn gysylltiedig â'r trawma maen nhw'n delio ag ef a'r ffaith bod troseddau o'r fath yn fwy tebygol o fod yn barhaus, yn hytrach na digwyddiadau ynysig fel troseddau treisgar eraill. Roedd yr ail reswm allweddol yn ymwneud â dioddefwyr yn aros tan ar ôl i'r achos troseddol ddod i ben, oherwydd eu bod yn ofni y byddai unrhyw gais i'r Cynllun yn cael ei ddefnyddio yn eu herbyn yn y llys, a bod y mater hwn yn cael ei waethygu gan lwyth achosion presennol y llysoedd. Y trydydd rheswm oedd nad yw dioddefwyr efallai'n ymwybodol o'r Cynllun yn y ddwy flynedd yn syth ar ôl y digwyddiad. Os ydynt yn gwneud cais ar ôl dwy flynedd, rhaid iddynt gyflwyno achos dros amgylchiadau 'eithriadol', gan gyfiawnhau eu cais hwyr.

94. Yn gyffredinol, roedd saith mlynedd yn cael eu ffafrio'n fwy fel terfyn amser newydd na thair blynedd, ond nid oedd yn bendant. Gwnaed awgrymiadau eraill gan lond llaw o bobl, gan gynnwys dim terfyn amser o gwbl. Ar gyfer pob terfyn amser posibl, teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai'r Cynllun gadw'r disgresiwn i'w ymestyn os oes angen. O ran i bwy y dylai terfyn amser estynedig fod yn berthnasol, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr hefyd wedi dadlau dros ymestyn y terfyn amser ar gyfer dioddefwyr sy'n oedolion – yn enwedig dioddefwyr sy'n oedolion sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, yn gorfforol ac yn ddomestig, a throseddau eraill, er enghraifft masnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth fodern.

95. Mae rhagor o fanylion am yr ymatebion i'r ymgynghoriadau i'w gweld isod.

# Cwestiynau ymgynghoriad 2023 ar derfynau amser

**C6:** Beth yw eich barn am gadw cyfyngiadau amser y Cynllun yr un fath?

96. Roedd 40 (82%) o'r ymatebion yn anghytuno â'r opsiwn o beidio â newid terfynau amser y Cynllun. Cafwyd ymateb cymysg gan 3 (6%) o'r ymatebwyr, ac nid oedd 6 (12%) wedi ateb y cwestiwn.

97. Roedd y rheini a oedd yn pryderu am y terfyn amser o 2 flynedd yn aros yr un fath yn gwneud pwyntiau fel:
    - Mae hyd cynyddol ymchwiliadau troseddol yn golygu bod y terfyn amser presennol o ddwy flynedd yn amhriodol.
    - Nid yw'r terfyn amser yn ystyried trawma dioddefwyr cam-drin rhywiol a / neu gam-drin plant yn rhywiol (e.e. Roedd gwaith ymchwil[17] wedi canfod bod y rhai sy'n goroesi cam-drin plant yn cymryd 22 mlynedd, ar gyfartaledd, i ddatgelu).
    - Mae terfynau amser eraill yn fwy priodol – saith mlynedd, yn unol ag argymhelliad yr Ymchwiliad, oedd yr awgrym mwyaf cyffredin, ond cafodd tair blynedd a dim terfyn amser eu hargymell hefyd.

98. Roedd y rheini a oedd â chefnogaeth amodol ar gyfer cadw'r terfyn amser yn awgrymu bod angen i'r Cynllun gadw disgresiwn i'w ymestyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**C7:** Pa gamau pellach y gellid eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'i derfynau amser?

99. Roedd 26 o ymatebion yn awgrymu gweithredu, a 23 o ymatebion yn awgrymu peidio â gweithredu.

100. O'r rhai a argymhellodd weithredu pellach, roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r heddlu, gwasanaethau cymorth a sefydliadau eraill yn darparu gwybodaeth am y Cynllun (ac efallai bod angen hyfforddiant arnynt i wneud hynny). Roedd ymatebion eraill yn canolbwyntio ar fformat gwybodaeth, gan gynnwys fformatau hygyrch, gwybodaeth ar-lein a gwybodaeth copi caled. Roedd eraill yn awgrymu gwneud mwy o ddefnydd o'r Cod Dioddefwyr, gan gynnwys cryfhau ei ddarpariaethau.

17 https://napac.org.uk/key-facts-figures/

**C8:** Beth yw eich barn am ddiwygio terfyn amser y Cynllun i saith mlynedd ar gyfer ymgeiswyr cam-drin plant yn rhywiol a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf, gyda CICA yn cadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol?

101. Roedd 15 (31%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r opsiwn hwn. Roedd 7 (14%) o ymatebion yn anghytuno; cafwyd ymateb cymysg gan 11 (22%) o'r ymatebwyr; ac nid oedd 16 (33%) wedi ateb y cwestiwn.

102. Roedd y rheini a oedd yn cefnogi'r opsiwn hwn yn teimlo ei fod yn debygol o hwyluso mwy o ddioddefwyr i gael mynediad at y Cynllun. Dywedodd rhai ei fod yn rhan o'r Llywodraeth yn gweithredu holl argymhellion yr Ymchwiliad.

103. Dywedodd rhai â phryderon am yr opsiwn hwn y dylid diddymu terfynau amser yn gyfan gwbl, a dywedodd eraill nad oedd newid yn hanfodol cyn belled â bod y Cynllun yn cadw disgresiwn i dderbyn ceisiadau hwyr mewn amgylchiadau eithriadol. Dywedodd un ymatebydd (o'r heddlu) y gallai'r opsiwn godi amheuaeth ynghylch hyd y cyfnod ar gyfer mathau eraill o gam-drin plant (yn enwedig os oedd troseddau digyswllt yn dod yn rhan o'r Cynllun), fel y rheini sy'n dod o dan gategorïau amddiffyn plant – corfforol, emosiynol ac esgeulustod.

**C9:** Beth yw eich barn am ddiwygio terfyn amser y Cynllun i saith mlynedd ar gyfer pob cais, gyda CICA yn cadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol?

104. Roedd 24 (49%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r opsiwn hwn. Roedd 6 (12%) wedi darparu ymatebion cymysg ac roedd 8 (16%) yn anghytuno. Ni wnaeth 11 (22%) o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn.

105. Roedd y rhesymau dros gefnogi'r opsiwn hwn yn cynnwys y byddai'n golygu y gallai dioddefwyr wneud cais ar ôl i'w hachos troseddol ddod i ben, yn hytrach na bod eu cais yn cael ei ddefnyddio yn eu herbyn yn y llys o bosibl. Ar nodyn cysylltiedig, byddai'n galluogi mwy o oroeswyr i wneud cais heb orfod hawlio amgylchiadau eithriadol. Roedd eraill yn teimlo bod yr opsiwn hwn yn cydnabod bod natur cam-drin ddomestig a rhywiol yn golygu bod goroeswyr yn gallu cymryd blynyddoedd lawer i adrodd y troseddau hyn.

106. Roedd pryderon a fynegwyd ynghylch yr opsiwn hwn yn cynnwys y gallai'r newid fod yn faich ychwanegol ar adnoddau CICA a'r amser mae'n ei gymryd i brosesu hawliad; ac ar asiantaethau sy'n darparu gwybodaeth i gefnogi ceisiadau. Roedd

rhywfaint o bryder y gallai'r Cynllun fod yn anfforddiadwy, gan arwain at ddyfarniadau is. Teimlai rhai ymatebwyr y gallai terfynau amser eraill fod yn well – gydag awgrymiadau o 3, 5, 14 mlynedd neu ddim terfyn amser.

**C10:** Pe bai'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun yn cael ei ymestyn i saith mlynedd, naill ai ar gyfer ceisiadau mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol neu ar gyfer pob cais, a oes angen i CICA gadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ymhellach mewn amgylchiadau eithriadol?

107. Roedd 24 (49%) o ymatebion yn cytuno bod angen disgresiwn, hyd yn oed gyda therfyn amser o saith mlynedd ar gyfer gwneud cais. Cafwyd ymateb cymysg gan 6 (12%) o'r ymatebwyr, ac roedd 2 (4%) yn anghytuno. Ni wnaeth 17 (35%) o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn.

108. Dywedodd rhai o'r rheini a oedd o blaid cadw disgresiwn nad oedd modd deddfu ar gyfer yr holl amgylchiadau, felly roedd angen disgresiwn bob amser. Dywedodd eraill fod disgresiwn yn bwysig ar gyfer e.e. cam-drin domestig, cam-drin plant yn rhywiol a dioddefwyr stelcio, gan y gallai fod cyfnod hir o ddigwyddiadau lluosog, yn hytrach nag un drosedd. Efallai y bydd gan ddioddefwyr broblemau seiciatrig tymor hir oherwydd y weithred dreisgar, felly gallant wynebu rhwystrau ychwanegol wrth riportio a gwneud cais am iawndal, neu gallant ohirio gwneud cais hyd nes y bo eu hachos yn dod i ben yn y llys gan y gallai'r amddiffyniad awgrymu bod yr honiad er budd ariannol.

109. Dywedodd y rhai â phryderon fod angen arweiniad ar arfer disgresiwn mewn perthynas â grwpiau penodol o ddioddefwyr (e.e. masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern).

**C11:** Beth yw eich barn ynghylch newid y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf?

110. Roedd 3 (6%) o'r ymatebion yn cytuno â therfyn amser o dair blynedd. Ni wnaeth 17 (34%) o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn, cafwyd 10 (20%) ymateb cymysg, ac roedd 19 (38%) o ymatebion yn anghytuno â'r opsiwn.

111. Dywedodd y rheini a oedd yn cefnogi terfyn amser o dair blynedd i ddioddefwyr o dan 18 oed y byddai unrhyw gynnydd yn well na'r cyfnod presennol o ddwy flynedd.

112. Roedd y pryderon am gyfyngiad o dair blynedd ar gyfer dioddefwyr o dan 18 oed yn cynnwys nad oedd yn gyfnod digonol, o ystyried ffactorau ychwanegol fel achosion

cyfiawnder troseddol hir; a'i fod yn rhy fyr yn enwedig ar gyfer categorïau o ddioddefwyr a allai wynebu rhwystrau rhag adrodd, neu ddigon o adferiad i wneud cais, fel plant neu ddioddefwyr masnachu mewn pobl.

113. Roedd beirniadaethau eraill o'r opsiwn hwn yn cynnwys na fyddai'n gweithredu argymhelliad yr Ymchwiliad (o saith mlynedd); dylai fod terfyn tair blynedd ar gyfer **pob** ymgeisydd ac, yn gysylltiedig, y byddai ei gymhwyso i blant yn unig yn creu hierarchaeth o ddioddefwyr, yn seiliedig ar oedran.

**C12:** Beth yw eich barn am newid y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd i'r Cynllun?

114. Roedd 7 (14%) o ymatebion yn cytuno gyda'r opsiwn i newid y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd i'r Cynllun? Cafwyd ymateb cymysg gan 13 (26%) o'r ymatebwyr; roedd 13 (26%) o ymatebwyr yn anghytuno, ac nid oedd 16 (32%) o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn.

115. Esboniwyd bod y gefnogaeth ar gyfer terfyn tair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd yn well na therfyn o ddwy flynedd; yn rhoi cysondeb ac eglurder i ymgeiswyr; ac yn cyfateb i'r terfynau amser ar gyfer hawliadau sifil am iawndal.

116. Roedd y pryderon ynghylch terfyn tair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd yn cynnwys nad oedd yn ddigon ar gyfer unrhyw ymgeisydd, yn enwedig o ystyried amserlenni ar gyfer achosion cyfiawnder troseddol; a bod yr Ymchwiliad wedi argymell diddymu terfynau amser mewn achosion sifil ar gyfer cam-drin heb fod yn rhai diweddar, ac y dylai'r Cynllun fabwysiadu'r un dull gweithredu. Dywedodd rhai ymatebwyr fod saith mlynedd yn fwy priodol ar gyfer dioddefwyr cam-drin hanesyddol.

## Cwestiynau cydraddoldeb 2023 sy'n ymwneud â chwmpas a therfynau amser

**C13:** Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb o beidio â newid, ac ar gyfer pob un o'r diwygiadau posibl a nodir yn yr ymgynghoriad hwn?

**C14:** Oes unrhyw ddulliau lliniaru o ran effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi eu hystyried?

117. Ni chawsom lawer o ymatebion i’r cwestiynau cydraddoldeb hyn, gyda 10 (20%) o’r ymatebwyr yn ateb C13; a 2 (4%) yn ateb C14. Ni ymhelaethodd y 7 (14%) o ymatebion a oedd yn cytuno bod dogfen yr ymgynghoriad wedi nodi’r effeithiau. Dywedodd un ymatebydd nad oedd yr ymgynghoriad wedi cynnwys yr effaith gadarnhaol y byddai ymestyn terfynau amser y Cynllun yn ei chael ar fenywod a merched.

118. Mae ein dadansoddiad cydraddoldeb llawn o ymgynghoriadau 2022 a 2023 i’w weld yn y Datganiad Cydraddoldeb yn **Atodiad A**.

## Ymateb y Llywodraeth i derfynau amser

119. Ar ôl ystyried egwyddorion y Cynllun, tystiolaeth ynghylch sut mae’r terfynau amser cyfredol yn gweithio, ac ymatebion i’r ymgynghoriad, ein penderfyniad ni yw peidio â newid terfynau amser y Cynllun ar hyn o bryd.

120. Nid oedd unrhyw gonsenswS clir ymysg ymatebwyr ynghylch beth ddylai’r terfynau amser fod. Ein barn ni yw bod y terfynau amser fel y maent yn rhoi digon o amser i’r rhan fwyaf o ddioddefwyr wneud hawliad, ac i fod wedi edrych ar lwybrau eraill ar gyfer iawndal. Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid a’r rhesymau pam nad yw dioddefwyr yn gwneud cais i’r Cynllun o fewn dwy flynedd. Fodd bynnag, mae data’n awgrymu bod y disgresiwn i ymestyn y terfyn amser, sydd eisoes wedi’i ddarparu gan y Cynllun, yn gweithio’n effeithiol. Roedd set ddata CICA 2016-2019 yn dangos bod 18% o achosion a gafodd eu datrys wedi cael eu derbyn y tu allan i’r terfyn amser o ddwy flynedd, ac aeth 63% o’r grŵp hwn ymlaen i gael dyfarniad. Roedd 81% o’r achosion a gafwyd y tu allan i’r terfyn amser yn ymwneud â cheisiadau am ymosodiadau rhywiol, gyda dim ond 9% o’r rhain yn cael eu gwrthod oherwydd y cawsant eu cyflwyno’n hwyr. Rhwng 2020 a 2022, roedd 18% o geisiadau yn ‘hwyr’ (h.y. y tu allan i’r terfyn amser o ddwy flynedd), ac roedd 61% ohonynt serch hynny wedi cael dyfarniad. Roedd 69% o’r ceisiadau hwyr yn achosion ymosodiadau rhyw, ac roedd 74% o’r rheini wedi derbyn dyfarniadau.

121. Mae’r Cynllun yn mynnu bod cais yn cael ei gyflwyno i CICA cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol. Wrth asesu hyn, mae CICA yn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau, e.e. a oedd yr ymgeisydd wedi cyrchu tystiolaeth i gefnogi ei gais, neu a oedd wedi dibynnu ar gyngor gan asiantaeth cyfiawnder troseddol ynghylch yr amser priodol i wneud cais. Mae CICA hefyd yn rhoi arweiniad i’w staff ar yr amgylchiadau a allai olygu bod ymgeiswyr yn oedi cyn rhoi gwybod i’r heddlu am ddigwyddiadau (e.e. yng nghyswllt amgylchiadau penodol dioddefwyr masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern). Gallai cynyddu terfynau amser ei gwneud yn anos i ddioddefwyr (a CICA) gyrchu’r dystiolaeth sydd ei hangen i asesu cais gan fod argaeledd tystiolaeth o’r fath yn aml yn gostwng dros amser. Ar ben hynny, byddai newid terfynau amser ar gyfer

dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol yn unig, fel yr argymhellodd yr Ymchwiliad, yn torri egwyddor graidd y Cynllun, sef cyffredinolrwydd i bob dioddefwr.

122. Nid ydym wedi canfod tystiolaeth bod terfyn amser presennol y Cynllun yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Mae dadansoddiad o set ddata CICA 2016–2019 yn dangos, o blith y ceisiadau hwyr, bod 71% gan fenywod a 29% gan ddynion. O'r hawliadau gan fenywod a gyflwynwyd yn hwyr, roedd 68%, serch hynny, wedi llwyddo i gael dyfarniad drwy'r Cynllun. O'r hawliadau gan ddynion a gyflwynwyd yn hwyr, roedd 51% yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, dangosodd y set ddata gyfradd llwyddiant uchel o ran hawliadau gan fenywod sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol, ni waeth a gawsant eu gwneud o fewn y terfyn amser ai peidio. Roedd 12,599 (83%) o'r hawliadau am ymosodiadau rhywiol gan fenywod. O'r rhain, dim ond 24% a gafodd eu gwrthod, o'i gymharu â 31% o'r hawliadau gan ddynion.

123. Rydym yn nodi bod dioddefwyr ymosodiadau rhywiol yn arbennig o bryderus ynghylch sut y gallai eu cais i'r Cynllun gael ei ddefnyddio yn y llys i awgrymu bod eu hachos troseddol er budd ariannol yn unig. Byddwn yn ystyried unrhyw argymhellion ar y pwynt hwn a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad arfaethedig ar dystiolaeth mewn achosion troseddau rhyw.[18]

124. Byddai'r holl opsiynau, ar wahân i ddim newid, yn arwain at gostau uwch, o ran taliadau iawndal a chostau gweithredol (ar gyfer CICA, yr heddlu a chyrff meddygol). Heb ragor o gyllid ar gyfer iawndal, gallai'r pwysau o ganlyniad i fwy o achosion arwain at wasanaeth gwaeth i ddioddefwyr o ran ei fod yn cymryd mwy o amser i brosesu hawliadau.

125. Rydym yn nodi pryderon ynghylch ymwybyddiaeth o'r Cynllun ac y gallwn wneud mwy am hyn. Rydym eisoes yn gweithio i roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun, er enghraifft drwy GOV.UK a'r Cod Dioddefwyr. Yn ogystal, mae CICA yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar gyfer ei randdeiliaid, gan gynnwys yr heddlu, sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen i ddioddefwyr troseddau treisgar. Byddwn yn ystyried awgrymiadau ymgynghori 2023 ar sut y gallwn godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymhellach i wneud yn siŵr bod dioddefwyr a allai fod yn gymwys yn clywed amdano a sut i wneud cais ar ddechrau eu taith.

126. Fel rhan o weithredu Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ar God Dioddefwyr newydd, sy'n cynnwys adran ar yr hawl i gael gwybodaeth am iawndal.

[18] https://lawcom.gov.uk/project/evidence-in-sexual-offence-prosecutions/

# Asesiad Effaith

## Asesiad Effaith

127. Cafodd Asesiadau Effaith eu cyhoeddi ochr yn ochr â dogfennau ymgynghori 2022[19] a 2023[20]. Gan nad ydym yn bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau, nid yw'r dogfennau hyn wedi newid.

19 https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-supplementary-consultation/supporting_documents/cicssupplementaryconsultationimpactassessment.pdf

20 https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-additional-consultation-2023/supporting_documents/cicsconsultationimpactassessmentunsigned.pdf

# Casgliadau a'r camau nesaf

128. Roedd ymgynghoriadau 2022 a 2023 wedi cyflawni'r rhwymedigaeth sy'n deillio o Strategaeth Dioddefwyr 2018 i ymgynghori ar newidiadau i'r Cynllun yn dilyn argymhellion yr Ymchwiliad. Rydym yn hynod ddiolchgar am yr holl ymatebion i'r ymgynghoriadau.

129. Mae ein casgliadau fel a ganlyn.

130. Ni fyddwn yn newid cwmpas, terfynau amser na rheol euogfarnau heb eu disbyddu'r Cynllun ar hyn o bryd.

131. Er bod safbwyntiau rhanddeiliaid wedi'u mynegi'n gryf mewn perthynas â'r agweddau hyn ar y Cynllun, mae data ystadegol wedi dangos bod y Cynllun, ar y cyfan, yn gweithio'n dda i dalu iawndal i ddioddefwyr. Mae data'n dangos bod dros £31m yn 2022–2023 wedi cael ei dalu i ddioddefwyr am anafiadau corfforol, £64m am anafiadau o ymosodiadau rhywiol ac £13m am anafiadau meddyliol. Ar ben hynny, mae'r disgresiwn presennol ynghylch terfynau amser yn golygu bod cyfran gymharol uchel o hawliadau hwyr yn cael eu derbyn er hynny, ac yn cael canlyniad cadarnhaol. Rhwng 2020 a 2022, roedd 18% o geisiadau yn 'hwyr' (h.y. y tu allan i'r terfyn amser o ddwy flynedd), ac roedd 61% ohonynt serch hynny wedi cael dyfarniad. Roedd 69% o'r ceisiadau hwyr yn achosion ymosodiadau rhyw, ac roedd 74% o'r rheini wedi derbyn dyfarniadau.

132. Byddai diwygio cwmpas, terfynau amser neu reolau euogfarnau sydd heb eu disbyddu'r Cynllun ar gyfer rhai dioddefwyr yn unig (e.e. dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol) yn torri egwyddor graidd y Cynllun, sef cyffredinolrwydd, sy'n sicrhau bod pob dioddefwr sy'n cael ei anafu gan drosedd dreisgar yn gallu cael mynediad cyfartal at y Cynllun, beth bynnag fo natur y drosedd. Byddai newid hyn yn awgrymu y dylai rhai grwpiau dioddefwyr gael mwy o fynediad at iawndal (e.e. gallai olygu na fyddai dioddefwyr cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod a dioddefwyr trais rhywiol yn ystod oedolaeth yn gallu cael mynediad at y Cynllun ar yr un telerau).

133. Rydym yn edrych ar y Cynllun yng nghyd-destun ehangach cymorth i ddioddefwyr. Mae'r cyd-destun ehangach hwn wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda darpariaeth y Llywodraeth ar gyfer dioddefwyr wedi datblygu.

134. Rydym nawr yn gweithredu diwygiadau yn Neddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, ac rydym yn ymgynghori ar y Cod Dioddefwyr diwygiedig, ymysg diwygiadau eraill.

135. Ar ben hynny, mae CICA wedi gweithio i wella ei wasanaeth ar gyfer ymgeiswyr am iawndal. Mae wedi cynnal llawer iawn o waith ymchwil defnyddwyr ac wedi rhoi prosesau mwy hygyrch a sensitif ar waith. Mae'r rhain wedi mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiad 2019 y Comisiynydd Dioddefwyr, *'Compensation without re-traumatisation: The Victims' Commissioner's Review into Criminal Injuries Compensation'*.[21] Er enghraifft, mae CICA wedi symleiddio ac wedi'i wneud yn fwy ystyriol o drawma, ac mae wedi gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymysg dioddefwyr a'r rheini sy'n eu cefnogi.

136. Byddwn yn ystyried sut gallwn barhau i helpu ymarferwyr rheng flaen i gefnogi dioddefwyr troseddau treisgar, gan gynnwys ystyried awgrymiadau ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dioddefwyr yn clywed am y Cynllun a sut i wneud cais ar ddechrau eu taith drwy'r system cyfiawnder troseddol.

137. Ar ben hynny, bydd ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o'r Cod Dioddefwyr ac ymgynghoriad y Llywodraeth ar y Cod yn helpu i sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o'u hawl i gael gwybodaeth am iawndal a'u cyfeirio at y Cynllun a dulliau eraill o wneud iawn.

[21] https://victimscommissioner.org.uk/document/compensation-without-re-traumatisation-the-victims-commissioners-review-into-criminal-injuries-compensation/

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu gan adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# Atodiad A – Datganiad Cydraddoldeb

## Cyflwyniad

1. Pwrpas craidd Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (y Cynllun) yw cydnabod, drwy iawndal, y niwed i ddioddefwr a anafwyd oherwydd trosedd dreisgar. [22] Rhaid i'r Cynllun weithio'r un mor dda i bob dioddefwr. Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA), sy'n gweinyddu'r Cynllun, yn asesu pob cais yn erbyn yr un meini prawf cymhwysedd, gofynion a thariffau anafiadau. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau ar gyfer pob dioddefwr yn cael eu gwneud mewn ffordd gyson a thryloyw.

2. Mae'r Datganiad Cydraddoldeb hwn yn edrych ar effaith bosibl ein casgliadau ar gydraddoldeb ym mhrif gorff y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad hon, yn dilyn ein hymgynghoriadau ar gwmpas, terfynau amser a rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu'r Cynllun. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Datganiadau Cydraddoldeb yn y dogfennau ymgynghori, a'r Asesiadau Effaith cysylltiedig.

## Crynodeb o'r cynigion polisi

3. Roedd yr ymgynghoriad yn 2022 yn ystyried rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu'r Cynllun, ac roedd yr ymgynghoriad ychwanegol yn 2023 yn canolbwyntio ar gwmpas y Cynllun a'r terfyn amser ar gyfer gwneud cais. Mae ystyried effeithiau posibl yr opsiynau a gyflwynir yn yr ymgynghoriad ar gydraddoldeb wedi bod yn elfen allweddol o'r gwaith hwn.

4. Mae'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad hon yn nodi, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, ac egwyddorion a diben y Cynllun, nad ydym yn bwriadu diwygio cwmpas, terfynau amser a rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu'r Cynllun.

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

5. Mae'r ddogfen hon yn cofnodi'r dadansoddiad a wnaed gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) fel y nodir yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

[22] https://www.gov.uk/government/consultations/criminal-injuries-compensation-scheme-review-additional-consultation-2023/criminal-injuries-compensation-scheme-review-additional-consultation-2023#executive-summary

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad anghyfreithlon arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu

6. Dyma'r nodweddion gwarchodedig sydd wedi cael eu hystyried:
   - rhyw
   - oed
   - hil
   - anabledd
   - ailbennu rhywedd
   - beichiogrwydd a mamolaeth
   - crefydd neu gred
   - cyfeiriadedd rhywiol
   - priodas a phartneriaeth sifil (dim ond mewn cysylltiad â nod cyntaf PSED)

7. Mae'r dadansoddiad cydraddoldeb hwn yn asesu effeithiau disgwyliedig casgliadau'r ymgynghoriad ar unigolion gyda nodweddion a warchodir. Mae hefyd yn ystyried yr effeithiau ar grwpiau eraill yr effeithir arnynt neu grwpiau difreintiedig.

## Ymgysylltiad a chyfranogiad

8. Mae'r Llywodraeth wedi ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, drwy'r ymgynghoriadau a'r ohebiaeth, i gyflawni ein hymrwymiad i ystyried anghenion y rheini sy'n perthyn i grwpiau gwarchodedig. Roedd pob ymgynghoriad yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o effeithiau posibl opsiynau a chynigion ar gydraddoldeb pobl sydd â phob un o'r nodweddion gwarchodedig.

## Tystiolaeth a dadansoddiad

9. Cafodd data llwyth achosion CICA ar gyfer 2016 i 2019 ei ddefnyddio ar gyfer ymgynghoriad 2022. Cafodd set wedi'i diweddaru o ddata llwyth achosion gan CICA ar gyfer 2020 i 2022 ei defnyddio ar gyfer ymgynghoriad 2023.[23]

10. Mae pob cofnod achos yn cynnwys gwybodaeth am oedran, rhyw ac ethnigrwydd yr ymgeisydd. Mae hyn wedi cael ei gyfuno â gwybodaeth am y math o drosedd, y math

[23] https://www.gov.uk/government/consultations/criminal-injuries-compensation-scheme-review-additional-consultation-2023/criminal-injuries-compensation-scheme-review-additional-consultation-2023#our-approach

o anaf a’r dyfarniadau a wnaed, gan ganiatáu dadansoddiad mewn perthynas â’r tair nodwedd warchodedig hynny.

11. Nid oedd y setiau data yn cynnwys achosion heb eu datrys. O ganlyniad, roedd y dadansoddiad yn tybio y byddai’r dadansoddiad demograffig o achosion heb eu datrys yn debyg i’r hyn a geir mewn achosion a oedd wedi’u datrys. Nid oedd yn ystyried unrhyw oedi systemig posibl o ran datrys achosion gan rai grwpiau gwarchodedig penodol, a allai wyrdroi rhai effeithiau rhagweledig arnynt.

12. Nid oedd y data llwyth achosion yn cynnwys gwybodaeth am rai nodweddion gwarchodedig, felly ni allwn asesu sut y byddai unrhyw newid polisi wedi effeithio ar yr hawliadau dros y cyfnod uchod mewn perthynas â’r canlynol:
    - anabledd
    - cyfeiriadedd rhywiol
    - crefydd / cred
    - beichiogrwydd / mamolaeth
    - ailbennu rhywedd
    - priodas / partneriaeth sifil

13. Roedd unrhyw ystyriaethau o ran effeithiau, naill ai’n gadarnhaol neu’n negyddol, ar y grwpiau nodweddion gwarchodedig yr oedd data ar eu cyfer, yn amodol ar y ffaith nad yw’n bosibl rhagweld yn bendant demograffeg hawlwyr a dioddefwyr troseddau treisgar y dyfodol.

14. Yn ogystal â data llwyth achosion CICA a chwestiynau’r ymgynghoriad, rydym wedi ystyried data o ffynonellau cyhoeddedig er mwyn ystyried ein rhwymedigaethau o ran cydraddoldeb.

## Ymatebion i’r ymgynghoriad

15. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i ymatebwyr dynnu sylw at unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb yr opsiynau, a thynnu ein sylw at ddata a thystiolaeth a oedd yn mesur yr effaith. Rydym wedi ystyried yr ymatebion, sy’n cael eu crynhoi isod.

**2022**

**C9:** Ydych chi’n cytuno ein bod wedi nodi’n gywir amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb o beidio â newid y Cynllun, ac ar gyfer pob un o’r diwygiadau posibl a nodir yn yr ymgynghoriad hwn (mewn perthynas â rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu'r Cynllun)?

16. Roedd 17 o ymatebion (15%) yn cytuno bod y ddogfen ymgynghori wedi nodi amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb yn gywir, roedd 55 o ymatebion (48%) yn anghytuno, a 42 o ymatebion (37%) heb ateb y cwestiwn hwn.

17. Cyflwynwyd y safbwyntiau canlynol:
   - **Oed**: Nid yw’r Cynllun yn cydnabod effaith anghymesur y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu ar ddioddefwyr sy’n blant a allai wneud cais am iawndal flynyddoedd lawer ar ôl y ffaith.
   - **Rhyw:** Mae’r rheol yn cael effaith anghymesur ar fenywod a merched sydd wedi bod yn destun dedfryd o garchar, gan fod cyfran uchel ohonynt wedi profi cam-drin domestig. Mae dynion yn cael eu cynrychioli’n anghymesur ymysg deiliaid cofnodion troseddol.
   - **Hil:** Mae grwpiau lleiafrifol yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol fel troseddwyr, sy’n golygu bod y rheol yn cael effaith anghymesur arnynt.
   - **Anabledd:** Mae’r rheol yn effeithio ar y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl, problemau llythrennedd neu anawsterau iaith.
   - **Nodweddion nad ydynt yn cael eu gwarchod:** Mae’r rheol yn cael effaith anghymesur ar weithwyr rhyw; dioddefwyr caethwasiaeth fodern; a’r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

**2023**

**Cwestiwn 13:** Ydych chi’n cytuno ein bod wedi nodi’n gywir amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb o beidio â newid y Cynllun, ac ar gyfer pob un o’r diwygiadau posibl a nodir yn yr ymgynghoriad hwn (mewn perthynas â chwmpas a therfynau amser y Cynllun)? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel y bo’n briodol.

18. Roedd 7 (14%) o ymatebion yn cytuno bod y ddogfen ymgynghori wedi nodi’r effeithiau; roedd 1 (2%) ymateb yn gymysg; ac roedd 2 (4%) o ymatebion yn anghytuno. Ni wnaeth 39 (80%) o’r ymatebwyr ateb y cwestiwn.

19. Ni wnaeth y rhai a gytunodd ymhelaethu ar eu hatebion. O’r rheini a oedd yn anghytuno, esboniodd un ei ateb:
   - **Rhyw:** Dywedodd yr ymatebydd nad oedd y Llywodraeth wedi ystyried yr effaith gadarnhaol y byddai cynnwys troseddau digyswllt yn y Cynllun ac ymestyn terfynau amser y Cynllun yn ei chael ar fenywod a merched.

**Cwestiwn 14:** Oes unrhyw ddulliau lliniaru o ran effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi eu hystyried?

20. Rhoddodd 2 (4%) o'r ymatebion awgrymiadau ar gyfer lliniaru'r effeithiau ar gydraddoldeb.
    - **Rhyw:** Dywedodd un ymatebydd fod y ffaith bod cam-drin digyswllt y tu allan i gwmpas y Cynllun presennol yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn menywod, ac y byddai ehangu'r cwmpas yn gam tuag at unioni hyn.
    - **Nodweddion nad ydynt yn cael eu gwarchod:** Roedd un ymatebydd o blaid dileu terfynau amser ar gyfer ceisiadau; darparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch; a defnyddio sefydliadau cymorth goroeswyr i gynllunio a dosbarthu gwybodaeth.

## Dadansoddiad

### Oedran

21. **Dioddefwyr troseddau** – Fel y nodwyd mewn Datganiadau Cydraddoldeb blaenorol, mae data'n awgrymu bod pobl ifanc yn fwyaf tebygol o fod yn ddioddefwyr troseddau treisgar, felly byddai unrhyw bolisi sy'n effeithio ar ddioddefwyr troseddau yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc. Er enghraifft, dangosodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr a gynhaliwyd dros y Ffôn (TCSEW) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 fod pobl 18 i 24 oed (3%) a 25 i 34 oed (2.9%) yn fwy tebygol o ddioddef troseddau treisgar o gymharu â phobl 65 i 74 oed (0.6%) a 75 oed a hŷn (0.2%).[24]

22. **Y Cynllun** – O ran terfynau amser y Cynllun, roedd rhai ymatebwyr i ymgynghoriad 2022 yn poeni nad oedd y Cynllun yn cydnabod effaith anghymesur unrhyw gynigion ar blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, a allai wneud cais am iawndal nifer o flynyddoedd ar ôl i'r cam-drin rhywiol ddigwydd. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) yn awgrymu bod tua hanner yr oedolion (46%) a brofodd drais rhywiol neu ymosodiad rhywiol cyn eu bod yn 16 oed wedi dweud wrth rywun am y gamdriniaeth dim ond yn ddiweddarach mewn bywyd. Roedd hyn yn is ar gyfer mathau eraill o gam-drin rhywiol drwy gyswllt (37%) a cham-drin rhywiol digyswllt (34%).[25] Rydym yn cydnabod y gallai fod rhwystrau rhag adrodd mewn achosion o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae tystiolaeth sy'n awgrymu y gall y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu hefyd gael mwy o effaith ar oedolion iau, a oedd

24 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/thenatureofviolentcrimeinenglandandwales/yearendingmarch2022

25 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/childsexualabuseinenglandandwales/yearendingmarch2019

yn fwy tebygol yn 2020 o gael eu dedfrydu drwy orchymyn cymunedol neu ddedfryd o garchar na grwpiau oedran hŷn.[26]

23. **Casgliad** – Er bod ystadegau troseddu ynghylch gwahanol grwpiau oedran yn amrywio, ein barn ni yw na fydd y polisi o beidio â newid yn debygol o olygu bod pobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig oedran. I'r gwrthwyneb, byddai diwygio'r Cynllun mewn ffordd sy'n trin gwahanol grwpiau o ddioddefwyr yn wahanol ar sail eu hoed, er enghraifft plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr cam-drin rhywiol, fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad, yn arwain at oblygiadau o ran cydraddoldeb a gallai fod yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon, oni bai fod modd cyfiawnhau'r driniaeth wahaniaethol. Byddwn yn ystyried awgrymiadau ymgynghoriad 2023 ar sut y gallwn godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymhellach i wneud yn siŵr bod dioddefwyr a allai fod yn gymwys yn clywed amdano a sut i wneud cais ar ddechrau eu taith.

**Rhyw**

24. **Dioddefwyr troseddau** – Gall y polisi gael effaith wahanol ar ddynion a menywod oherwydd eu gwahanol debygolrwydd o fod yn ddioddefwyr troseddau. Dangosodd TCSEW ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 bod dynion yn fwy tebygol o ddioddef troseddau treisgar na menywod (2.2% o ddynion o'i gymharu ag 1.6% o fenywod), er bod hyn yn debygol o fod yn danamcangyfrif ar gyfer nifer y menywod sy'n ddioddefwyr.[27] Roedd gwaith ymchwil y Cenhedloedd Unedig yn awgrymu bod dynion yn fyd-eang 4 gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr lladdiad na menywod, gyda dynion 15–29 oed yn wynebu'r risg uchaf.[28] Mae menywod yn fwy tebygol o ddioddef troseddau o'r fath. Roedd Arolwg Troseddu Plant Cymru a Lloegr (CCSEW) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 yn amcangyfrif bod 3.3% o fenywod (798,000) ac 1.2% o ddynion (275,000) 16 oed a hŷn wedi profi ymosodiadau rhywiol (gan gynnwys ymdrechion) yn y flwyddyn flaenorol. Roedd troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 yn dangos bod y dioddefwr yn fenywaidd mewn 86% o droseddau rhywiol.[29]

25. **Y Cynllun** – Awgrymodd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad nad oedd terfynau amser y Cynllun ar gyfer ceisiadau yn briodol i ddioddefwyr trais rhywiol, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, gan y gallai'r dioddefwyr hyn roi gwybod i'r heddlu am y drosedd lawer o flynyddoedd yn ddiweddarach. Fodd bynnag, roedd ein dadansoddiad o setiau data CICA yn awgrymu bod disgresiwn y Cynllun yn

---

[26] https://www.gov.uk/government/consultations/criminal-injuries-compensation-scheme-review-supplementary-consultation

[27] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/thenatureofviolentcrimeinenglandandwales/yearendingmarch2022

[28] https://www.unodc.org/unodc/en/data-and-analysis/global-study-on-homicide-2019.html

[29] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/sexualoffencesvictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2022

gweithredu'n effeithiol ac nad oedd y terfynau amser yn rhoi menywod dan anfantais. Yn gyffredinol, roedd CICA wedi derbyn 18% o achosion[30] y tu allan i'r terfyn amser, ac roedd 63% o'r rheini wedi cael dyfarniad. Roedd 81% o'r achosion a gafodd CICA y tu allan i'r terfyn amser yn ymwneud â cheisiadau cysylltiedig ag ymosodiadau rhywiol, gyda dim ond 9% o'r rhain yn cael eu gwrthod oherwydd y cawsant eu cyflwyno'n hwyr.

26. Mae dadansoddiad o set ddata CICA yn dangos, o blith y ceisiadau hwyr, bod 71% gan fenywod a 29% gan ddynion. O'r hawliadau gan fenywod, roedd 68% yn llwyddiannus. O'r hawliadau gan ddynion a gyflwynwyd yn hwyr, roedd 51% yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, dangosodd y set ddata gyfradd llwyddiant uchel o ran hawliadau gan fenywod sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol, ni waeth a gawsant eu gwneud o fewn y terfyn amser. Roedd 12,599 (83%) o'r hawliadau am ymosodiadau rhywiol gan fenywod. O'r rhain, dim ond 24% a gafodd eu gwrthod, o'i gymharu â 31% o'r hawliadau gan ddynion. Rydym felly o'r farn bod disgresiwn presennol y Cynllun i ymestyn terfynau amser yn gweithredu fel nad oes triniaeth lai ffafriol ar sail rhyw.

27. Nid yw taliadau iawndal yn cael eu haddasu yn unol â chwyddiant a, dros amser, mae gwerth y taliadau hynny i dderbynwyr yn debygol o ostwng mewn termau real. Mae data CICA yn awgrymu y gallai rhai ymgeiswyr, fel dioddefwyr trais rhywiol, oedi cyn rhoi gwybod i'r heddlu a gwneud hawliad am gyfnod hir ar ôl i'r drosedd dreisgar ddigwydd. Mae menywod a merched yn cyfrif am y rhan fwyaf o ddioddefwyr trais rhywiol ac felly mae'n bosibl y bydd effaith anghymesur arnynt. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yng ngwerth y dyfarniadau mewn termau real ar gyfer y rhan fwyaf o unigolion sy'n dioddef trais rhywiol yn debygol o fod yn gymharol fach. Er bod set ddata CICA yn dangos bod canolrif yr oedi wrth gyflwyno hawliadau'n ymwneud ag achosion o ymosodiadau rhywiol gryn dipyn yn hirach na mathau eraill o ddigwyddiadau, roedd yn parhau i fod o dan 3 blynedd (34.9 mis).

28. **Casgliad** – Ein barn ni yw na fydd y polisi'n debygol o gael effaith negyddol ar fenywod a merched. Dylai ein bwriad i godi ymwybyddiaeth wedi'i dargedu o'r Cynllun gael effaith gadarnhaol ar bob ymgeisydd. Bydd hyn yn helpu dioddefwyr i gael gwybodaeth gywir am y Cynllun a'i ofynion.

**Hil**

29. **Dioddefwyr troseddau** – Gall y polisi gael effaith fwy ar rai grwpiau ethnigrwydd oherwydd eu tebygolrwydd uwch o fod yn ddioddefwyr troseddau. Pobl o grwpiau du neu ethnig cymysg (20%) sydd fwyaf tebygol o ddioddef trosedd, a phobl o grwpiau

[30] Achosion a gafodd eu datrys yn ddiweddarach.

ethnig gwyn sydd leiaf tebygol (13%) o ddioddef trosedd (sy’n cynnwys troseddau di-drais).[31]

30. **Y Cynllun** - Roedd yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch gorgynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol yn y system cyfiawnder troseddol, sy’n golygu y byddai rheol euogfarnau heb eu disbyddu'r Cynllun yn effeithio’n anghymesur ar y grwpiau hyn. Mae data hefyd yn awgrymu bod lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn) yn cael eu gorgynrychioli ar sawl cam yn y system cyfiawnder troseddol o’u cymharu â’r grŵp ethnig gwyn.[32] Mae’r gwahaniaethau mwyaf yn ymddangos gydag arferion stopio a chwilio, remandio yn y ddalfa a phoblogaethau carchardai. Ymysg lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn), unigolion du oedd yn aml yn cael eu gorgynrychioli fwyaf. [33]

31. **Casgliad** – Gan nad ydym yn diwygio’r Cynllun, nid oes unrhyw effaith ychwanegol ar y nodwedd warchodedig o hil. Byddwn yn ymgysylltu â’r holl randdeiliaid i godi ymwybyddiaeth o’r Cynllun i gefnogi pob dioddefwr.

### Anabledd

32. **Dioddefwyr troseddau** – Gall y polisi gael effaith fwy ar bobl anabl oherwydd eu tebygolrwydd uwch o fod yn ddioddefwyr troseddau o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Yn nhrosolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) o ddata cyhoeddedig ar anabledd a throseddu yn y DU (ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019), roedd oedolion anabl yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trosedd yn ystod y flwyddyn flaenorol (23.1%) nag oedolion nad oeddent yn anabl (20.7%).[34]

33. Yn y tair blynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018, dywedodd 3.7% o oedolion anabl rhwng 16 a 59 oed eu bod wedi profi ymosodiadau rhywiol yn y flwyddyn flaenorol yng Nghymru a Lloegr, o’i gymharu ag 1.9% o oedolion nad ydynt yn anabl. Roedd y gwahaniaeth rhwng dynion a menywod hefyd yn uwch ar gyfer oedolion anabl nag ar gyfer oedolion nad ydynt yn anabl. Roedd menywod anabl dros bum gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dioddef ymosodiad rhywiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (5.7%) na dynion anabl (1.1%). Roedd gwahaniaeth sylweddol (2.7%) rhwng cyfraddau ymosodiadau rhywiol ar gyfer menywod anabl a menywod nad ydynt yn anabl, tra gwelwyd cyfraddau tebyg o ymosodiadau rhywiol ar gyfer dynion anabl a dynion nad ydynt yn anabl. Mae hyn yn awgrymu bod y cyfuniad o’r

---

[31] https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/crime-justice-and-the-law/crime-and-reoffending/victims-of-crime/latest/

[32] https://www.gov.uk/government/statistics/ethnicity-and-the-criminal-justice-system-2022/statistics-on-ethnicity-and-the-criminal-justice-system-2022-html#fn:1

[33] https://www.gov.uk/government/statistics/ethnicity-and-the-criminal-justice-system-2022/statistics-on-ethnicity-and-the-criminal-justice-system-2022-html

[34] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/bulletins/disabilityandcrimeuk/2019#:~:text=In%20the%20latest%20findings%20(year,personal%20and%20household%2Dlevel%20crimes.

nodweddion gwarchodedig hyn yn gwneud menywod anabl yn fwyaf tebygol o ddioddef ymosodiadau rhywiol.[35]

34. **Casgliad** – Ein barn ni yw na fydd y polisi'n debygol o gael effaith negyddol ar bobl anabl. Byddwn yn parhau i sicrhau bod addasiadau rhesymol ar gael i ymgeiswyr ag anableddau, gan gynnwys y rheini sydd ag amhariad ar eu galluedd meddyliol.[36] Byddwn yn ymdrechu i wella hygyrchedd y Cynllun lle bynnag y bo modd, gan godi ymwybyddiaeth o addasiadau rhesymol wrth barhau i gefnogi'r rheini sydd ag anableddau.

35. Yn ogystal, mae CICA yn gweithio i wneud ei wasanaeth yn fwy hygyrch a sensitif i anghenion dioddefwyr troseddau treisgar sydd wedi dioddef anaf corfforol neu feddyliol difrifol. Mae wedi gwella ei broses ymgeisio, gan gynnwys hysbysiadau system a gohebiaeth. Mae CICA yn adolygu ei hyfforddiant a'i arweiniad yn barhaus i sicrhau bod gan yr holl staff y lefel iawn o hyfforddiant i reoli ceisiadau gan ddioddefwyr mewn ffordd dosturiol a sensitif.

**Crefydd neu gred**

36. **Dioddefwyr troseddau** - Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos patrymau troseddau personol (sy'n cynnwys troseddau treisgar). Pobl Iddewig sydd fwyaf tebygol o ddioddef troseddau (19.1%) a Hindŵiaid yw'r lleiaf tebygol (10.9%). Pobl sydd wedi'u gwahanu sydd fwyaf tebygol o ddioddef troseddau personol (19.2%) a phobl weddw yw'r lleiaf tebygol (9.1%). Mae pobl hoyw / lesbiaidd a deurywiol (19%) yn fwy tebygol na phobl heterorywiol (13%) o fod yn ddioddefwyr.[37]

37. **Casgliad** – Yn ein barn ni, nid yw'r polisi yn cael effaith anghymesur ar y grwpiau hyn.

**Nodweddion gwarchodedig eraill**

38. **Dioddefwyr troseddau** - O ran **pobl briod a phartneriaethau sifil**, pobl sydd wedi'u gwahanu sydd fwyaf tebygol o ddioddef troseddau personol (19.2%) a phobl weddw yw'r lleiaf tebygol (9.1%). O ran **cyfeiriadedd rhywiol**, mae pobl hoyw / lesbiaidd a deurywiol (19%) yn fwy tebygol na phobl heterorywiol (13%) o fod yn ddioddefwyr. [38] Nid ydym wedi gallu cyrchu data ar nodweddion gwarchodedig **ailbennu rhywedd na beichiogrwydd a mamolaeth**.

---

35 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/bulletins/disabilityandcrimeuk/2019#domestic-abuse

36 https://www.gov.uk/guidance/criminal-injuries-compensation-a-guide

37 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwalesannualtrendanddemographictables/current

38 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwalesannualtrendanddemographictables/current

39. Ni soniodd yr un ymatebwr i’r ymgynghoriad am effeithiau ar gyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd, mamolaeth na phriodas a phartneriaeth sifil.

40. **Casgliad** – Yn ein barn ni, nid yw’r polisi yn cael effaith anghymesur ar y grwpiau hyn.

## Ystyriaethau cydraddoldeb

### Gwahaniaethu uniongyrchol

41. Yn ein barn ni, nid yw’r polisi yn gwahaniaethu’n uniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010. Credwn na fydd yn golygu bod pobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd unrhyw nodwedd warchodedig.

### Gwahaniaethu anuniongyrchol

42. Ar sail y data sydd ar gael, rydym o’r farn y gallai ein ffordd arfaethedig ymlaen effeithio’n anghymesur ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol, oherwydd eu gorgynrychiolaeth fel dioddefwyr troseddau treisgar sydd o fewn cwmpas iawndal y Cynllun; ac fel troseddwyr (at ddibenion y rheol euogfarnau sydd heb eu disbyddu). Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod hyn yn debygol o arwain at anfantais benodol i’r dioddefwyr hyn o’i gymharu â’r rheini nad ydynt yn rhannu’r nodweddion gwarchodedig hynny, fel yr eglurir uchod. O ganlyniad, nid ydym o’r farn bod y polisi hwn yn gwahaniaethu’n anuniongyrchol.

### Aflonyddu ac Erledigaeth

43. Nid ydym o’r farn y bydd y polisi yn arwain at aflonyddu nac erledigaeth.

### Anabledd a’r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

44. Mae data a ystyriwyd yn Natganiadau Cydraddoldeb yr ymgynghoriad yn awgrymu y gall pobl ag anableddau fod yn fwy tebygol na’r rheini heb anableddau o fod yn ddioddefwyr troseddau. Ar ben hynny, gallai codi ymwybyddiaeth o’r Cynllun fod o fudd i’r rheini sydd ag anableddau y mae troseddu’n effeithio’n anghymesur arnynt.

45. Mae’n dal yn bwysig gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dioddefwyr anabl er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi. Bydd dioddefwyr yn dal i allu cael aelod o’u teulu i’w cefnogi i wneud cais, neu i wneud hynny ar eu rhan.

### Hyrwyddo cyfle cyfartal

46. Rydym wedi ystyried ym mha ffordd y mae’r polisi yn effeithio ar y ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy fodloni anghenion hawlwyr sy’n rhannu nodwedd benodol, pan fo’r anghenion hynny’n wahanol i angen y rheini nad ydynt yn rhannu’r nodwedd benodol honno. Yn gyffredinol, mae’r Cynllun yn ceisio cefnogi pawb sy’n

dioddef troseddau treisgar, beth bynnag fo’u nodweddion gwarchodedig, ac felly mae’n debygol o gyfrannu at hyrwyddo cyfle cyfartal.

**Meithrin cysylltiadau da**

47. Rydym o'r farn bod yr amcan hwn yn annhebygol o fod yn arbennig o berthnasol i'n polisi.

## Casgliad

48. Ein barn ni yw nad yw’r polisi’n debygol o arwain at wahaniaethu anghyfreithlon nac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi’i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ar ben hynny, fel y disgrifir uchod, rydym yn credu ei bod yn debygol y bydd y cynigion yn hyrwyddo cyfle cyfartal i ddioddefwyr. Yn unol â natur barhaus PSED, byddwn yn parhau i ystyried effeithiau’r polisi ar gydraddoldeb. Mae hyn yn bwysig i sicrhau nad yw unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig o dan anfantais yn y dyfodol.

# Atodiad B - Prawf o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

## Ymgynghoriad 2022

1. O'r 114 o ymatebion i ymgynghoriad 2022, roedd un gan sefydliad a ddywedodd ei fod wedi ei leoli yng Nghymru. Roedd yr ymateb yn codi pwyntiau tebyg i'r rhai a wnaed gan ymatebwyr yn Lloegr. Ni wnaed unrhyw sylwadau mewn perthynas ag effeithiau ar Gymru neu ar ddefnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru, darparu gwasanaeth yng Nghymru nac ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## Ymgynghoriad 2023

2. O'r 49 ymateb, ni chafwyd un gan unigolyn neu sefydliad a nododd eu bod yn byw neu wedi'u lleoli yng Nghymru.

Bydd fersiwn Saesneg o'r papur ymateb hwn ar gael.

# Atodiad C – Rhestr o'r ymatebwyr i ymgynghoriad 2022

Mae'r tabl canlynol yn rhannu'r ymatebwyr i ymgynghoriad 2022 yn gategorïau:

| Categorïau | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Academyddion | 6 |
| Swyddfeydd y Comisiynwyr | 4 |
| Cymorth Cyfiawnder Troseddol – Cwmni | 1 |
| Cymorth Cyfiawnder Troseddol – Mudiadau Gwirfoddol / Elusennau | 6 |
| Unigolion | 59 |
| Gwasanaethau cyfreithiol | 8 |
| Corff Polisi Anadrannol | 1 |
| Arall | 2 |
| Senedd y DU | 2 |
| Comisiynwyr Heddlu a Throseddu / Yr Heddlu | 2 |
| Cymorth Trais / Cam-drin Rhywiol – Sefydliadau | 2 |
| Cymorth Trais / Cam-drin Rhywiol – Mudiadau Gwirfoddol / Elusennau | 20 |
| Masnachu Pobl / Caethwasiaeth | 1 |
| **Cyfanswm yr ymatebwyr** | **114** |

**Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad:**

Ymateb ar y cyd – Anti-Slavery International, Anti-Trafficking Monitoring Group, Anti Trafficking and Labour Exploitation Unit, Every Child Protected Against Trafficking UK, Focus on Labour Exploitation, Helen Bamber Foundation, Hope for Justice, The Human Trafficking Foundation, International Justice Mission UK, JustRight Scotland, Law Centre Northern Ireland, The Snowdrop Project, ac Unseen UK

Association of Personal Injury Lawyers

Axis Counselling

Cambridge and Peterborough Rape Crisis

Centre for Action on Rape and Abuse Essex

Centre for Women's Justice

CRB Problems Ltd

Criminal Justice Alliance

Digby Brown Solicitors

Forum of Complex Injury Solicitors

Howard League for Penal Reform

Independent Victims' Commissioner for London

Cyfiawnder

Leigh Day

Legal Services Agency

National Ugly Mugs

Swyddfa'r Comisiynydd Cam -drin Domestig

Swyddfa’r Comisiynydd Annibynnol ar Atal Caethwasiaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Gogledd Cymru

Office of the Victims' Commissioner for England and Wales

Personal Injuries Bar Association

Peterborough Rape Crisis

Yr Heddlu

Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai

Rape and Sexual Abuse Counselling Centre Darlington

Rape Crisis Scotland

Safeline

Safety Net UK

Scottish Women's Aid

Simpson Millar Solicitors

Survivors’ Network

The Association of Consumer Support Organisations

The Havens

UCLan/Safe Place Merseyside SARC

Unlock

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr

Women Against Rape

Cymorth i Ddioddefwyr

Victim Support Scotland

Women's Centre Cornwall

# Atodiad D – Rhestr o'r ymatebwyr i ymgynghoriad 2023

Mae'r tabl canlynol yn rhannu'r ymatebwyr i ymgynghoriad 2023 yn gategorïau:

| Categorïau | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---:|
| Academyddion | 1 |
| Cymorth plant – mudiad gwirfoddol / elusen / nid-er-elw | 2 |
| Swyddfeydd y Comisiynwyr | 3 |
| Cymorth Cyfiawnder Troseddol – mudiad gwirfoddol / elusen / nid-er-elw | 4 |
| Llywodraeth | 1 |
| Unigolion | 2 |
| Gwasanaethau cyfreithiol | 12 |
| Caethwasiaeth fodern / masnachau pobl – mudiad gwirfoddol / elusen / nid-er-elw | 4 |
| Comisiynwyr Heddlu a Throseddu / Yr Heddlu | 4 |
| Cymorth Trais / Cam-drin Rhywiol – Mudiadau Gwirfoddol / Elusennau / nid-er-elw | 10 |
| Cymorth dioddefwyr – mudiad gwirfoddol / elusen / nid-er-elw | 5 |
| **Cyfanswm yr ymatebwyr** | **48** |

**Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad:**

Anti Trafficking and Labour Exploitation Unit

Association of Personal Injury Lawyers

Brown & Co Legal LLP at Legal Services Agency LTD

Bolt Burden Kemp

Centre for Women's Justice

Changing Lives

Children's Commissioner for England

Cornfield Law LLP

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Devon and Cornwall Police

False Allegations Support Organisation

Forum of Complex Injury Solicitors

Hodge Jones & Allen Ltd

Hope for Justice

Hugh James Solicitors

IICSA Changemakers

Independent Victims' Commissioner for London

Irwin Mitchell Solicitors

Justice and Care

McHale & Co Solicitors

Nelsons Solicitors

Office of the Domestic Abuse Commissioner

Office of the Police and Crime Commissioner for Cambridgeshire and Peterborough

Office of the Police and Crime Commissioner for Northumbria

Office of the Police & Crime Commissioner for South Yorkshire

Ymateb ar y cyd – Personal Injuries Bar Association a'r Law Reform Committee of the Bar Council

Police & Crime Commissioner for Cambridgeshire and Peterborough

Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai

Rape Crisis England & Wales

Rape Crisis Scotland

Refuge

Scottish Women's Aid

Surviving Economic Abuse

Survivors of Human Trafficking in Scotland

Survivors' Network

Survivors UK

Supporting Victims of Unfounded Allegations of Abuse

Survive Support for Survivors of Rape and Sexual Abuse

Suzy Lamplugh Trust

Switalskis Solicitors

The Children's Coalition

The National Association for People Abused in Childhood

The Survivors Trust

Unlock

Cymorth i Ddioddefwyr

E03322821

978-1-5286-5557-6